Profiadau'r plentyn	Cyfanswm dosbarthiadau o 30 neu fwy a 12 neu lai	Byddai ysgol newydd yn cyrraedd targedau'r strategaeth yn well na'r sefyllfa presennol. O fewn stwythur Gydol Oes ni fyddai toriad rhwng CA2 a CA3	Gallai ddisgyblion presennol yr ysgolion gymryd amser i addasu o fod mewn ysgol lai gyda nifer mewn dosbarthiadau llai i ysgol fwy gyda llawer mwy o ddisgyblion.
Niferoedd disgyblion	Newidiadau yn niferoedd disgyblion dros amser a rhagolygon i'r dyfodol	Byddai'r ysgolion wedi eu rhesymoli gan ystyried rhagolygon newid yn y boblogaeth – byddai'r ysgol newydd yn addas i'r niferoedd a ragwelir	Os gwirheir y model sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r ysgolion byddai'r ysgol newydd yn cynnwys nifer sylweddol o ddisgyblion – yn dra gwahanol i heddiw
Amgylchedd dysgu'r plentyn	<ul style="list-style-type: none"> Cost gwneud yr ysgol yn addas Addasrwydd adeiladau - man i athrawon weithio tu hwnt i ddosbarthiadau - ystafell pennaeth - mynediad at gaeau chwarae - neuuadd addas - adeiladau addas ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a C2008 	Byddai'r ysgol newydd yn cwrrd â gofynion ar gyfer ysgolion 21C yn llawer gwell na'r sefyllfa presennol o ran addasrwydd adeilad. Dylunir yr ysgol newydd er mwyn cwrrd ag anghenion addasrwydd adeiladau (colofn chwith).	[Hatched area]
Arweinyddiaeth	Anawsterau apwyntio <ul style="list-style-type: none"> - Pennaeth dros 55 oed - Pennaeth dros dro - Pennaeth yn gymwys i ymddeol 	Byddai cyffeusterau newydd o'r math yma yn denu diddordeb ac yn ei gwneud yn haws apwyntio i'r dyfodol.	Byddai'n golygu'r angen am lai o benaethiaid ac athrawon er mwyn addysgu'r disgyblion.. Byddai lleihad hefyd yn y niferoedd o staff addysgu a staff eraill fyddai eu hargen er mwyn addysgu a rhedeg yr ysgolion.
Y Gymuned	Plant all-dalgylch ennill o ddalgylchoedd eraill colli i ddalgylchoedd eraill Adrawiad Cymunedol - adroddiad Dylan Bryn	Byddai adeilad ac ysgol newydd yn denu mwy o du hwnt i'r dalgylch ** Adrawiad Cymunedol – adroddiad Dylan Bryn **	Efallai byddai ysgol o'r maint yma yn gwrthio'r rheini sy'n ffafrio ysgolion llai i ysgolion y tu hwnt i'r dalgylch. Neu rieni sy'n ffafrio addysg weledig yn hytrach nag addysg mewn man trefol. ** Adrawiad Cymunedol – adroddiad Dylan Bryn **

iaith	** Ardrowiad iaith – gweler adroddiad Dylan Bryn**	** Ardrowiad iaith – gweler adroddiad Dylan Bryn **	** Ardrowiad iaith – gweler adroddiad Dylan Bryn **
Ffactorau daearyddol	Disgyblion i deithio llai na 30 munud i'w hysgol	Yn ddibynnol ar gartref disgyblion byddai'n annhebygol byddai'n rhaid i ddisgybl deithio yn fwy na 45 munud (Rheoladau'r Cynulliad) na chwaith o bosib dros 30 munud (Strategaeth Gwynedd) yn ddibynnol ar safle unrhyw ysgol newydd.	Mae'n bosib y byddai rhai disgyblion angen teithio ymhellach i fynd i'w hysgol nag y maent yn deithio heddiw. Buasai lleoliad yn bwysig er mwyn ystyried effaith ar dratnidaeth leol.
Adnoddau Ariannol	Cost fesul disgybl % llefydd gweigion	Byddai ysgolion wedi eu rhesymoli gyda felly'r nifer o lefydd gweigion o dan 25% Daw hyn â'r gost fesul disgybl hefyd yn llai. Byddai costau darparu un adeilad o'r math yn llawer mwy effeithiol na'r sefyllfa bresennol.	Mae'n bosib y buasai costau ciudiant i ddisgyblion yn codi gan y byddai mwy yn byw yn bellach na'r arfer i'w hysgol dalgylch.


Modelau ychwanegol

Ers y cyfarfod PAD diwethaf derbyniwyd modelau o'r newydd.

- **Ysgol Ardal wledig Machreth** ar safle'r ysgol bresennol - 3 opsiwn gwahanol sef
Opsiwn 1 - Ysgolion Ieuan Gwynedd; Llanfachreth a'r Ganolwyd
Opsiwn 2 – Ysgolion Ieuan Gwynedd; Brithdir; Llanfachreth a'r Ganolwyd
Opsiwn 3 - Ysgolion Llanfachreth; Ganolwyd; Llanelltyd ac Ysgol Clogau

Ymgorfforir y rhain ym mlwch 'Model 2'

- **Modelau ym mlwch 2 -**



Wrth edrych ar y modelau ym mlwch 2 - **Ysgol Ardal wledig** - mae'n rhaid hefyd ystyried beth allai ddigwydd i weddill ysgolion y dalgylch.

Derbyniwyd sylwadau yn nodi enghraifft fel y canlynol :

Ysgol Ardal		
Clogau	Ganolwyd	Llanelltyd
38	25	40
		Llanfachreth
		23

+

Cydweithio		
Brithdir	Ieuan Gwynedd	Dinas Mawddwy
32	24	21

+ +

Ac enghraifft arall:

Nodiadau

- **Ysgol Iloeren** - yn ystod y trafodaethau gofynnwyd am ddiffiniad o “ysgol loeren”. Cyfeirir yma at ysgol (fwy gwledig efallai) na fydd yn dod yn rhan o drefniant Ysgol Gydol Oes dyweder ond a fydd, er hynny, yn meithrin patrwm o gydweithio a rhannu adnoddau efo'r sefydliad newydd er budd y plant. Bydd statws “ysgol loeren” o ran statws yr ysgol ei hun yn parhau yn union fel ag y mae ar hyn o bryd.
- **Ysgol Gydol Oes** - sefydliad fyddai'n darparu addysg i ddisgyblion o 3 oed i 16 oed. Gallai fod ar un safle, ar sawl safle gwahanol neu yn drefniant ble mae ysgol uwchradd ac ysgol gynradd yn cael eu llywodraethu a'i harwain a'i rheoli fel un sefydliad.

Atodiad 4.1 – Aseiad Opsynau - Cyngor Gwynedd (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleon, Bygythiadau)
Ysgol Ardal ar Safle Brithdir / Area School on Brithdir Site

<p>Cryfderau / Strengths</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gall y Cyngor weithredu yn yr ardal yma heb gyllideb gan y Cynulliad • Agosach i Ddinas Mawddwy na unrhyw ysgol arall yng Ngwynedd (sef safle 2 i'r ysgol ardal yn yr opsiwn yma) • Yn ymyl cylch meithrin Seren Fach (0.3 milltir o Ysgol Brithdir, o'i gymharu â 3.9 milltir o Ysgol leuan Gwynedd) • Mae niferoedd Ysgol Brithdir wedi bod yn cynyddu'n raddol ers 1975 • Mewn ardal ble mae 40 o blant yn mynychu yn barod • Mae bron i hanner o blant y tair ysgol bresennol yn mynychu Ysgol Brithdir (sef o'r 3 ysgol – Llanfachreth, leuan Gwynedd a Brithdir = 81. 40 o 81 = 49%) • Mae'n nes i Ddolgellau - yn ôl yr AA - Ysgol Brithdir i Ddolgellau = 2.9milltir/7munud Ysgol Llanfachreth i Ddolgellau = 3.8milltir/15munud Ysgol leuan Gwynedd i Ddolgellau = 5.7milltir/10munud • Mae'n nes i Ddolgellau - lle mae 14 o blant Ysgol Brithdir yn byw yn bresennol. Mae 11 o blant Llanfachreth hefyd yn byw yn Nolgellau (sef 50%) a 2 yn byw ym Mrithdir yn barod. Mae 4 (neu 21%) o blant Ysgol leuan Gwynedd yn byw yn nes at Ysgol Brithdir nag unrhyw ysgol arall. Felly o'r 81 o blant rhwng y 3 ysgol mae 62 (neu 77%) o blant yn byw yn nes i safle Ysgol Brithdir nag i safle leuan Gwynedd neu Ysgol Llanfachreth. • Mwy o ddwysedd poblogaeth (oedran cynradd) yn nalgylch Brithdir na dalgylch Ysgol leuan Gwynedd - ardal lai yn ddaearyddol, ond mwy o boblogaeth 	<p>Gwendidau / Weaknesses</p> <ul style="list-style-type: none"> • Costau uwchraddio yn uwch na leuan Gwynedd - £1.5m • Risg uwch o ran perchnogaeth tir (angen mwy o dir o ddwylo preifat na leuan Gwynedd) • Capasiti adeilad presennol Brithdir yn llai na leuan Gwynedd, mae capasiti adeilad leuan Gwynedd yn 45 tra bod capasiti adeilad Brithdir yn 38 • Byddai estyniad yn ymestyn i dir gwyrdd o fewn y Parc Cenedlaethol • Cyflwr presennol adeilad yr Ysgol. Angen mwy o waith cynnal a chadw nag adeilad leuan Gwynedd.
<p>Cyfleoedd / Opportunities</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn cwrdd â nifer o amcanion y Strategaeth Ad-drefnu megis lleihau llyfdd gweigion; cysoni'r sefyllfa arweinyddiaeth; maint dosbarthiadau gyda phlant yn dysgu gyda chyfoedion yn agosach i'w hoedran; cysoni'r gost fesul disgybl; ymateb i niferoedd disgyblion sy'n gostwng; cyfuno adnoddau mewn un safle • Gyda'r safle ym Mrithdir gallai fod yn haws cadw Dinas Mawddwy yn hyfyw ac yn rhan weithredol o'r dalgylch cyfan 	<p>Bygythiadau / Threats</p> <ul style="list-style-type: none"> • Risg posib na fyddai'r perchenngog tir yn fodlon gwerthu'r llecyn sydd ei angen • Risg o ddenu plant o Ddolgellau i'r ysgol ardal neu i'r gwrthwyneb - Risg bod datblygiadau pellach yn y dref yn denu plant o safle Brithdir • Angen tir sydd y tu allan i ffin datblygu – angen caniadatd Y Parc Cenedlaethol

Ysgol Ardal ar Safle Ieuan Gwynedd / Area School on Ieuan Gwynedd Site

Cryfderau / Strengths	Gwendidau / Weakness
<ul style="list-style-type: none"> • Costau uwchraddio yn llai na Brithdir £1.1m • 26 o lefydd gwag yn Ieuan Gwynedd o'i gymharu â 0 ym Mrithdir • Capasiti presennol Ieuan Gwynedd yn fwy na capasiti Brithdir , capasiti Ieuan Gwynedd yn 45 tra bod capasiti Brithdir ond yn 38 • Ysgol Ieuan Gwynedd yn gwasanaethu ardal fwy eang nag Ysgol Brithdir • Nid yw'n ddibynol ar bryniant tir – gellir ei wireddu heb brynu • Adeilad mewn cyflwr gwell na Ysgol Brithdir • 	<ul style="list-style-type: none"> • Tuedd cyffredinol o leihad mewn niferoedd disgyblion ers 1975 • Pellach o Ddinas Mawddwy na Brithdir yn ôl yr AA • Dinas Mawddwy i Ieuan Gwynedd = 12.3milltir/19munud • Dinas Mawddwy i Frithdir = 8.2milltir/11munud • Mae llai o blant yn byw yn nalgylch Ieuan Gwynedd nag yn nalgylch Brithdir. Safle Ysgol Ieuan Gwynedd yn gwasanaethu ardal ble mae 12 plentyn o fewn y dalgylch o'i gymharu â 28 o fewn dalgylch Brithdir • Mae'n bellach o Ddolgellau – yn ôl yr AA – • Ysgol Brithdir i Ddolgellau = 2.9milltir/7munud • Ysgol Llanfachreth i Ddolgellau = 3.8milltir/15munud • Ysgol Ieuan Gwynedd i Ddolgellau = 5.7milltir/10munud • Mae'n bellach o Ddolgellau a lle mae rhan fwyaf o blant presennol yn byw (mae 14 o blant Brithdir yn teithio o Ddolgellau yn bresennol i safle'r Brithdir. Mae 11 o blant Llanfachreth hefyd yn byw yn Nalgellau (sef 50%) ac mae 2 yn byw ym Mrithdir yn barod. Mae 4 (neu 21%) o blant Ysgol Ieuan Gwynedd yn byw yn nes i Ysgol Brithdir nag unrhyw ysgol arall • Felly o'r 81 o blant rhwng y 3 ysgol mae 62 (neu 77%) o blant yn byw yn nes i safle Ysgol Brithdir nag i safle Ieuan Gwynedd neu Ysgol Llanfachreth. • Mae Ysgol Ieuan Gwynedd o fewn 3.9 milltir (neu 7 munud) i gylch Meithrin Seren Fach. Dim ond 0.3 milltir o'r cylch meithrin yw Ysgol Brithdir
<p>Cyfleoedd / Opportunities</p> <ul style="list-style-type: none"> • Safle o fewn y ffin adeiladu/datblygu presennol Parc Cenedlaethol • Yn cwrrd â nifer o amcanion y Strategaeth Ad-drefnu megis lleihau llefydd gweigion; cysoni'r sefyllfa arweinyddiaeth; maint dosbarthiadau gyda phlant yn dysgu gyda chyfoedion yn agosach i'w hoedran; cysoni'r gost fesul disgybl; ymateb i niferoedd disgyblion sy'n gostwng; cyfuno adnoddau mewn un safle 	<p>Bygythiadau / Threats</p> <ul style="list-style-type: none"> • Risg posib na fyddai'r perchennog tir yn fodlon gwerthu'r llecyn sydd ei angen • Cydweithio gyda Dinas Mawddwy ychydig yn anoddach o ran teithio yno • Dinas Mawddwy i Frithdir = 8.2milltir / 11munud • Dinas Mawddwy i Ieuan Gwynedd = 12.3milltir / 19munud • Risg i rieni fynd a phlant i Ddolgellau (yn enwedig os bydd gwelliannau yno)

Symud CA2 i Safle'r Gader / Moving KS2 to Y Gader Site

<p>Cryfderau / Strengths</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esmwytho'r broses drosglwyddo o CA2 i CA3 • Galluogi rhannu arbenigedd staff • Creu adnoddau dysgu newydd ar safle'r Gader • Cael gwared ag un safle cynradd - dim angen i blant groesi lon rhwng safleoedd • Cryfhau'r sefyllfa addysgol uwchradd 	<p>Gwendidau / Weaknesses</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn creu cyfnod trosglwyddo rhwng y Cyfnod Sylfaen a CA2 • Angen buddsoddiad o £4.5miliwn (+ unrhyw waith uwchraddio Cyfnod Sylfaen) i'w wireddu – sydd y tu hwnt i strategaeth ariannu'r Cyngor. • Oediad i weithredu oherwydd yr angen i roi cais am arian cyfalaf i'r Cynulliad - dim newid yn y cyfamser • Creu mwy o fwlch rhwng disgyblion Ysgolion Gwledig a disgyblion Ysgol y Dref – e.e. CA2 ysgolion eraill yn ymuno'r safle yn hwyrach. • Dwysau'r traffig i'r safle presennol • Byddai angen buddsoddiad sylweddol er mwyn gwella mynediad ac ateb gofynion traffig y safle • Rhai aelodau o staff yn colli eu swyddi • Byddai CA1 un ochr i'r dref a CA2 ochr arall – byddai hyn yn anghyfleus?
<p>Cyfleoedd / Opportunities</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfle i wella'r cyrhaeddiad disgyblion yn ystod y cyfnod trosglwyddo rhwng CA2 i CA3 • O fewn ffiniau adeiladu presennol Parc Cenedlaethol Eryri. Dolgellau yn disgyn o fewn "rhanbarth canolog" y Parc • Arbedion cyllidol/refeniw o gau un safle – treth, costau cynnal a chadw, glanhau, arbedion ariannol o gau un ffreutur • Enillion cyfalaf o werthu un safle cynradd yn ddibynnol ar y polisi ôl-ddefnydd. 	<p>Bygythiadau / Threats</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn cael effaith a'r cyrhaeddiad yng nghychwyn CA2 (oherwydd y trosglwyddo)? • Peidio derbyn arian cyfalaf gan y Cynulliad – ni fyddai'r cynllun yn gallu mynd ymlaen hebddo. • Plant yn cael eu denu o ddalgylch yr ysgol ardal - gwanio sefyllfa'r ysgol ardal? Y byddai llefydd gwag yn ymddangos yn yr ysgolion gwledig wrth i'r plant fynd i ysgol y dref yn hytrach nag ysgol y dalgylch lle maent yn byw • Ysgol Gynradd yn colli disgyblion i'r ysgol ardal newydd (ochr Ddwyreiniol) yn y cyfamser – Ysgol Ardal yn weithredol cyn y datblygiad yma • Gwaredu'r safle lau presennol yn anodd (adeilad rhestredig) • Cymhlethdodau o ran statws cyfreithiol yr ysgol

Gwella Cynradd Dolgellau / Improve Dolgellau Primary

Cryfderau / Strengths	Gwendidau / Weaknesses
<ul style="list-style-type: none"> • Gallu gweithredu yng nghynt drwy Strategaeth Ariannu'r Cyngor – dim angen oedi i ddisgwyl am arian cyfalaf gan y Cynulliad • Arbedion cyllidol/refeniw o gau un safle – treth, costau cynnal a chadw, glanhau, arbedion ariannol o gau un ffreutur ayyb • Gwella ac ychwanegu at adnoddau dysgu'r ysgol gynradd • Gwella'r ymdeimlad o gyswllt rhwng Cyfnod Sylfaen a CA2 • Dim angen gwario i brynu safle newydd i'w ddatblygu 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfnod trosglwyddo rhwng CA2 a CA3 yn parhau • Ymarferoldeb addasu'r safle tra mae'r ysgol yn agored • Anodd rhagdybio'r niferoedd o ddisgyblion a fyddai'n dod yn ôl i'r dref yn sgil datblygiadau yno (ar hyn o bryd llawer yn mynd allan o ddalgylch y dref i ysgolion eraill)
Cyfleoedd / Opportunities	Bygythiadau / Threats
<ul style="list-style-type: none"> • Yn cwrdd â nifer o amcanion y Strategaeth Ad-drefnu megis lleihau llefydd gweigion; cysoni'r gost fesul disgybl; cyfuno adnoddau mewn un safle • Posib denu plant y dalgylch sydd yn mynychu ysgolion all-dalgylch yn ôl? • Hyrwyddo arwain a rheoli ysgol a gweithgareddau addysgol ar y cyd, e.e. gwasanaethau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Plant yn cael eu denu o ddalgylch yr ysgol ardal - hyn yn gwario sefyllfa'r ysgol ardal? Troi'r sefyllfa bresennol ar ei ben gan y byddai llefydd gwag wedyn yn ymddangos yn yr ysgolion gwledig wrth i'r plant o'r dalgylchoedd gwledig ddewis ysgol y dref yn hytrach nag ysgol y dalgylch lle maent yn byw • Byddai angen cais cynllunio adeilad rhestredig • Cymhlethdodau o ran statws cyfreithiol yr ysgol

Atodiad 4.2 – Asesiad Opsynau - Ychwanegiadau Gynulleidfa PAD 6 (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleon, Bygythiadau)

Ysgol Ardal ar Safle Brithdir / Area School on Brithdir Site

Cryfderau / Strengths	Gwendidau / Weaknesses
<p>Sylwadau Grŵp A</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lai o blant gorfod symud • 40+ plant yno'n barod • Meithrinfa Seren Fach <p>Sylwadau Grŵp B</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhieni eisoes yn dewis yr ysgol <p>Sylwadau Grŵp C</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mwy canolig • Annhebygol y byddai'n wag • Cyfleus efo 'Seren Fach' <p>Sylwadau Grŵp D</p> <ul style="list-style-type: none"> • Niferoedd Plant <p><i>Sylwadau Ar Lafar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Llai o blant yn symud</i> • <i>40+ o blant yno'n barod</i> • <i>Meithrinfa Seren Fach</i> • <i>Cryfhau safle Dinas Mawddwy lle mae adnoddau da</i> 	<p>Sylwadau Grŵp A</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ffordd yn beryglus • Rheini wedi bod yn datgan yn barod na fuasent yn fodlon cludo plant sy'n mynychu ysgol Fachreth i Brithdir • Poeni nad ydi'r niferoedd yn digonol i gynnal ysgol – dim pennaeth digyswilt • Pont gul ac anaddas i gludo plant mewn bws <p>Sylwadau Grŵp B</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dros capacity yn barod • Ansicrwydd argaeledd tir <p>Sylwadau Grŵp C</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prinder tir <p>Sylwadau Grŵp D</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ffordd mynedfa 'top torrent' <p>Sylwadau Grŵp D</p> <ul style="list-style-type: none"> • Safle • Iechyd a diogelwch – safle ar ochr ffordd <p><i>Sylwadau Ar Lafar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Iechyd a diogelwch - ffordd wrth gyrion safle'r ysgol, mwy o risg gyda chynnydd mewn nifer, mwy o deithio yn cynyddu traffig</i> • <i>Hen adeilad</i> • <i>Niferoedd uchel yn meddwl byddai'r pennaeth ddim yn ddigyswilt</i> • <i>Rhieni Llanfachreth am fynd a'u plant i ysgolion eraill, dim Brithdir</i>

Cyfleoedd / Opportunities	Bygythiadau / Threats
<p>Sylwadau Grŵp C</p> <ul style="list-style-type: none"> • Efallai mwy o ddefnydd o'r ail safle yn Dinas Mawddwy <p><i>Sylwadau Ar Lafar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Haws cydweithio a Dinas Mawddwy</i> 	<p>Sylwadau Grŵp C</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhieni Ieuan Gwynedd mynd a'r plant allan o'r ardal i Llanuwchllyn, felly byddai'r Gader yn dioddef <p><i>Sylwadau Ar Lafar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Fformiwla cyllideb ysgol aml safle, pryder byddai'r un corff llywodraethol gorfod gwneud penderfyniad i gau un safle [Ymatebwyd y pwynt yma, os yw ysgol yn cau, rhaid cynnig darpariaeth amgen o fewn y Sir, petai Dinas Mawddwy yn cau byddai'r ysgol agosaf yn Powys, Brithdir yw'r agosaf yng Ngwynedd]</i>

Ysgol Ardial ar Safle Ieuan Gwynedd / Area School on Ieuan Gwynedd Site

Cryfderau / Strengths	Gwendidau / Weaknesses
<p>Sylwadau Grŵp A</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgol mewn cyflwr da • Tir digonol • Uned anghenion arbennig • Pellter o'r ffordd fawr • Sicrhau bod disgyblion Rhydymain a'r cylch yn mynychu YG • Neuadd yn yr ysgol • Offer chwarae allanol <p>Sylwadau Grŵp B</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnoddau da presennol <p>Sylwadau Grŵp C</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mwy o dir • Ysgol mwy addas yn barod • Llai o wariant • Potensial i ehangu • Delfrydol – just oddi ar y ffordd fawr • Uned anghenion arbennig yn barod • Well ffordd • Tir gwastad • Cae chwarae da a 'pyst rygbi' • Os ydi beth mae rhai yn wir a bod pobl yn mynd i symud ei plant efallai bod safle presennol Ieuan Gwynedd yn ddigon o maint • 'Service bus' yn pasio o leiaf bob 2 awr – amlach yn yr Haf <p>Sylwadau Grŵp D</p> <ul style="list-style-type: none"> • Safle <p>Sylwadau Ar Lafar</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mwy o dir • Ysgol Fwyaf addas nawr • Llai o wariant • Ysgol oddi ar y ffordd ond dim rhy bell 	<p>Sylwadau Grŵp A</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhieni Llanfachreth wedi datgan na fyddent yn anfon plant i Rhydymain • Bellach na'r ysgolion eraill • Ffordd yn anaddas i fws • Amser teithio mewn bus o Dinas Mawddwy i Rhydymain <p>Sylwadau Grŵp B</p> <ul style="list-style-type: none"> • Teithio ychwanegol i rieni <p>Sylwadau Grŵp C</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pellter o Dinas Mawddwy <p>Sylwadau Ar Lafar</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pellter o Dinas Mawddwy • Ar ffin dalgylch Ysgol Y Gader O kkaï o lefydd i ddenu ohoni • Dim digon o blant yn yr ysgol nac yn y dalgylch

<ul style="list-style-type: none"> • <i>Ffordd i gyrraedd yno</i> • <i>Uned anghenion arbennig yno</i> • <i>Cae chwarae gyda physt rygbi</i> 	
<p>Cyfleoedd / Opportunities</p>	<p>Bygythiadau / Threats</p> <p>Sylwadau Grŵp CH</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ehangu a gwella leuan Gwynedd – a dim digon o blant yn mynd yno a wedyn gorfod cau • Pa fath o welliannau i Brithdir – hen adeilad – ydi plant Llanfachreth am fynd? • Sut cyllido 2 safle gyda’r fformiwla

Symud CA2 i Safle'r Gader / Move KS2 to Y Gader Site

Cryfderau / Strengths	Gwendidau / Weaknesses
<p>Sylwadau Grŵp 1</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnoddau fwy newydd <p><i>Sylwadau Ar Lafar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Creu dilyniant CA2-CA3 • Adnoddau newydd 	<p>Sylwadau Grŵp 1</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhieni yn gwrthwynebu cymysgu oedrannau • Diffyg lle ar y safle • CA3 arholiadau, dim neuadd i plant CA2 • Creu mwy o fwelch rhwng disgyblion ysgolion gwledig a disgyblion ysgol y dref <p>Sylwadau Grŵp 3</p> <ul style="list-style-type: none"> • Symud plant ifanc (7 oed) i safle plant hŷn hyd at 16 oed • Problemau trafniadaeth • Colli swyddi athrawon • Caeau chwarae ysgol gynradd yn rhy bell/croesi'r briffordd • Athrawon CA1/CA2/CA3 yn cael eu hyfforddi'n wahanol <p><i>Sylwadau Ar Lafar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Symud problem trosglwyddo i CA1-CA2 • Pam dim gydol oes i'r dalgylch cyfan? [Ymatebwyd bod cydweithio o fewn y dalgylch cyfan yn rhan o'r cysyniad gydol oes • Ceisio cadw plant 7oed a 15 oed ar wahan [Bydd rhaid dylunio allan y broblem yma wrth gynllunio - problem wedi ei drafod yn gynllun Y Berwyn] • CA2 y dref yn cael mantais dros CA2 y wlad

Cyfleoedd / Opportunities	Bygythiadau / Threats
<p>Cryfderau / Strengths</p> <p>Sylwadau Grŵp 1</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr unig mantais yw cael y plant ar yr un safle 	<p>Gwendidau / Weaknesses</p> <p>Sylwadau Grŵp 1</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dim gofod i CA1

Gwella Cynradd Dolgellau / Improve Dolgellau Primary

<p>Sylwadau Grŵp 3</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mwy naturiol i CS/CA2 fod efo'i gilydd • Arbed £2.5 miliwn (i helpu sortio'r ardal Orllewinol) <p>Sylwadau Grŵp 4</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cadw'r disgyblion ar un safle • Cadw cysondeb rhwng y dref a'r ysgolion llai 	<ul style="list-style-type: none"> • Safle'r babanod reit newydd – gofod mawr a neuadd • Plant dal angen croesi'r ffordd i fynd at y cwrw chwarae – lechyd a Diogelwch? • Ystafelloedd dosbarthu ddim yn addas – maent hefyd yn fach <p>Sylwadau Grŵp 2</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gydol Oes – er mwyn cynnal y cysyniad o Gydol Oes yn yr ardal dylid ystyried 'un pennaeth' ar gyfer y dalgylch? • Oes cefnogaeth at y syniad 'Gydol Oes' o ddifrif? <p>Sylwadau Grŵp 4</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dosbarthiadau bychain • Dim man chwarae allan <p><i>Sylwadau Ar Lafar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Peryg bydd y safle'n rhyfach</i> • <i>Peryg i'r cynllun newydd fod yn waeth na'r sefyllfa bresennol</i>
<p>Cyfleoedd / Opportunities</p> <p>Sylwadau Grŵp 1</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymestyn tuag at penariag – adnoddau ar y safle yna 	<p>Bygythiadau / Threats</p> <p>Sylwadau Grŵp 2</p> <ul style="list-style-type: none"> • Angen sicrhau darpariaeth ar gyfer <u>pob</u> plentyn sy'n byw yn y dref – angen safle/gallu i gynnig lle i rhagor na'r hyn sydd yn y cynllun ar hyn o bryd <p><i>Sylwadau Ar Lafar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Gall denu plant yn ôl o'r wlad</i>

Trefniadaeth Ysgolion Cynradd

Addysg

Cyfarfod o: Banel Adolygu Dalgylch Y Gader

Dyddiad: 29 Ebrill 2010

Presennol:

Liz Saville Roberts (LSR); Dewi R Jones (DRJ); Seimon Williams (SW); Tony Bate (TB); John Blake (JB); Cyng Dewi Owen (DO); Cyng Linda Morgan (LM); Cyng Gethin Glyn Williams (GGW); Cyng John Pughe Roberts (JPR); Cyng Louise Hughes (LH); Parch. Robert Townsend (RT); Ann Williams (AW); Derec Jones (DJ); Simon Evans (SE); Wil Williams (WW); Peter Jones (PJ); Elin Gapper (EG); Nia Edwards (NE); Eleri Jones (EJ); Gwawr Davalan (GD); Meinir W Jones (MWJ); Geraint Evans (GE); Janet Preston (JP); John Hughes (JH); Bethan Kelly (BK); Peter Maddocks (PM); Cyng Dyfrig Siencyn (DS); Jamie Medhurst (JM); Sioned Roberts (SR); Peter Cook (PC); Erin Jones (EJ); Kerry Wyn Parry (KWP); Rhys Llywelyn (RhLI); Helen Davenport Parry (HDP); Dwyryd Williams (DW); Allyn G Owen (AGO); Aranwen Manzini-Hughes (AMH); Helen Jones (HJ); Gwenan Morgan Owen (GMO); Sara Price (SP); Victoria Lloyd (VLI) Catherine Davey (CD)

Ymddiheuriadau:

Gareth Williams (GW); Gwilym R Hughes (GRH); Iwan Parry (IP); Olwen Jones (OJ)

Crynodeb gweithredol

(Nodi pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod, a nodi unrhyw bwyntiau sydd angen eu cyfathrebu i fforwm arall; gan bwy, erbyn pryd)

Rhif Eitem	Eitem/ Pwnc	Gweithrediad	Gan	Erbyn
3.	Aelodaeth y Panel Adolygu Dalgylch	i) Penaethiaid ysgolion unigol i sicrhau fod cylchoedd meithrin yn rhan o'r drafodaeth leol ii) Swyddogion i estyn gwahoddiad i Goleg Meirion Dwyfor anfon cynrychiolaeth i gyfarfod nesaf y PAD	Penaethiaid y cylch SW	Parhaus 13/6
4.	Rhaglen Waith	i) Cynghorwyr y cylch i drefnu ymweliad ar y cyd â phob ysgol yn y dalgylch ii) Ysgolion unigol i estyn gwahoddiad i ddarpar rieni i gyfarfodydd mewn ysgolion unigol yn ôl eu dymuniad iii) Swyddogion i drefnu dyddiad ar gyfer sesiwn i blant a phobl ifanc	Cynghorwyr y dalgylch Penaethiaid ysgolion unigol RWE	7/6 7/6
5.	Dadansoddiad	i) Swyddogion i wirio'r pecyn ystadegol yn unol â'r uchod a'i gylchredeg yn electroneg i ysgolion	TB	30/4

	Ystadegol y Gader	ii) Swyddogion i baratoi ystod o wybodaeth gyffelyb ar Ysgol Uwchradd y Gader iii) Ysgolion i wirio gwybodaeth ar gyfer eu hysgolion hwy a'i dychwelyd at swyddogion iv) Swyddogion i ymgorffori'r holl newidiadau mewn pecyn cyfansawdd a'i gylchredeg gyda phapurau cyfarfod nesaf y PAD	TB Penaethiaid ysgolion TB	30/4 6/5 7/5
6.	Ceisiadau am wybodaeth bellach	i) Swyddogion i ail-anfon Cylchlythyr 021/2009 a'r dadansoddiad o'r rheoliadau ffederal	SW	30/4

Cofnod Llawn

Rhif Eitem	Eitem / Pwnc	Gweithrediad	Gan	Erbyn
1.	Croeso ac Ymddiheuriadau	Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan DRJ a chyflwynodd y swyddogion a chynghorwyr y sir i'r panel. Ymddiheuriadau: Gareth Williams (GW); Gwilym R Hughes (GRH); Iwan Parry (IP); Olwen Jones (OJ)		
2.	Geiriau agoriadol gan y Deilydd Portffolio Addysg.	Diolchodd LSR i bawb am ddod i'r cyfarfod ac eglurodd mai pwrpas y cyfarfod oedd cyflwyno'r broses a ffeithiau i'r panel. Nododd pwysigrwydd cadw mewn cof mai trafod yr hyn sydd orau i ddyfodol plant a phobl ifanc y cylch oedd pwrpas yr adolygiad. Amlinellwyd rôl y panel, sef trafod a gwirio gwybodaeth ffeithiol ac i rannu modelau er mwyn cael barn yr ysgolion. Pwysleisiodd mai ar ei hysgwyddau hi fyddai'r penderfyniad i gyflwyno cynigion a'i bod yma i glywed barn aelodau'r PAD.		
3.	Cylch gorchwyl ac aelodaeth y Panel Adolygu Dalgylch	Arweiniodd SW y panel drwy briff a chylch gorchwyl y Panel Adolygu Dalgylch (papur 1). Gofynnwyd i'r panel a fyddent yn awyddus i roi gwadd i unrhyw aelodau ychwanegol i'r PAD. Cafwyd cais i estyn gwahoddiad i Feithrinfa Seren Fach, Brithdir. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i beidio eu gwahodd. Gofynnwyd i ysgolion sicrhau bod cylchoedd meithrin eu dalgylch yn rhan o'r trafodaethau lleol yn yr ysgolion unigol. Nodwyd y byddai'r Cyngor yn paratoi newyddlen yn dilyn yr holl gyfarfodydd a fydd yn cael ei dosbarthu. Gofynnwyd yn ogystal i'r penaethiaid rannu'r wybodaeth yn y gymuned. Cafwyd cais i wahodd cynrychiolydd o Goleg Meirion-Dwyfor. Eiliwyd y cais a chytunwyd i estyn gwahoddiad iddynt. Cyfeiriodd SW at gylchlythyr 021/2009 ar gynigion trefniadaeth y Cynulliad a oedd eisoes wedi ei rannu i'r Penaethiaid. Nododd fod copïau ychwanegol ar gael ar gais. Derbyniwyd Papur 1 (Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y Panel Adolygu Dalgylch) yn amodol ar yr addasiadau a	Penaethiaid ysgolion SW	Parhaus 13/05/10

		nodir uchod.		
4.	Rhaglen Waith	<p>Cyflwynodd SW y rhaglen waith gan egluro'r broses a'r dyddiadau penodol sydd i ddod. Cynigwyd i'r PAD ychwanegu at y broses.</p> <p>Eglurodd LSR fod trefniant wedi ei wneud iddi ymweld â'r ysgolion i gyd ar 04/05/10 gyda'r Cyng. Dewi Owen (sef cynrychiolydd y Panel Ymgynghorol Sirol) a John Blake.</p> <p>Cafwyd cais i gynghorwyr y dalgylch fynd o amgylch yr ysgolion hefyd. Cytunwyd i hyn ac y byddai'r cynghorwyr yn gwneud trefniadau gyda'r ysgolion.</p> <p>Gofynnwyd a fyddai modd i'r cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni ddigwydd ynghynt na 7 Mehefin. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i beidio a'u cynnal ynghynt oherwydd ar ôl 3ydd cyfarfod y Panel Adolygu Dalgylch y byddai modelau cliriach i'w trafod.</p> <p>Gofynnwyd a fyddai'n bosibl i rieni sydd â phlant sydd heb ddechrau yn yr ysgolion fynychu'r cyfarfodydd hyn, a hefyd cynrychiolaeth o'r Cynghorau Cymuned. Cytunwyd bod croeso i ysgolion unigol wahodd rhieni darpar ddisgyblion a chynrychiolaeth or Cynghorau Cymuned petai hynny'n ddymuniad.</p> <p>Gofynnwyd a fyddai modd sicrhau fod yr Asesiad o Effaith Ieithyddol a Chymunedol yn digwydd yn fuan er mwyn sicrhau fod digon o amser i bobl ymateb i'r holiaduron. Eglurwyd fod hyn wedi ei raglennu yn y rhaglen waith. Eglurwyd y byddai Dylan Bryn Roberts (sef yr ymgynghorydd a fydd yn ymgymeryd â'r gwaith) yn mynychu'r cyfarfod nesaf i egluro'r drefn a byddai cyfnod o 6 wythnos wedyn cyn y 4ydd panel i gynnal hyn. Derbyniwyd hyn gan aelodau'r Panel.</p> <p>Bwriedir cynnal sesiwn gyda phlant a phobl ifanc er mwyn ceisio barn y plant. Mae swyddog yn y Cyngor sydd wedi bod yn ymgymryd â'r gwaith yma yn nalgylchoedd Tywyn a'r Berwyn gyda 3-4 o gynrychiolwyr hynaf yr ysgolion cynradd ac ieuengaf o'r ysgol uwchradd yn dod at ei gilydd ar gyfer y sesiwn. Cytunwyd y byddai hyn yn fodel derbyniol ar gyfer ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc y dalgylch, ac y byddai swyddogion yn cysylltu gydag ysgolion i drefnu dyddiad addas.</p> <p>Gofynnwyd a fyddai modd cychwyn y cyfarfod hwn yn hwyrach y tro nesaf a chytunwyd i gychwyn am 18:30.</p> <p>Cytunwyd ar gynnwys Papur 2 (Rhaglen Waith y Panel Adolygu Dalgylch) yn amodol ar yr addasiadau a nodwyd eisoes.</p>	<p>Cynghorwyr y dalgylch</p> <p>Penaethiaid ysgolion y dalgylch</p> <p>SW</p>	<p>Cyn y cyfarfod yn yr ysgol unigol</p> <p>13/5</p>
5.	Gwybodaeth Ffeithiol – Dadansoddiad Y Gader	<p>Cyflwynwyd y ddogfen gan TB ac eglurodd y byddai'r ddogfen yn cael ei defnyddio fel sail i drafodaethau ar unrhyw fodelau yn y dyfodol. Diolchodd i'r Penaethiaid am wirio'r ddogfen.</p>		

		<p>Arweiniodd y panel drwy'r ddogfen gan egluro'r tablau a'r ffigyrau gwahanol. Adnabuwyd rhai pethau sydd angen eu gwirio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dangos pellter o'r cartref i'r ysgol agosaf. • Gwell eglurhad i'r % capasiti • Cymhwyster CPCP • Mân newidiadau i'r ffigyrau • Gwirio ffigyrau all-dalgylch • Addasrwydd adeiladau - y gair 'rhannol' yn annelwig. Angen addasu'r tabl. • Eglurder ar y cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol • Nodi defnydd llywodraethwyr yn gyson drwy'r ysgolion i gyd. • Tabl yn nodi statws yr ysgolion <p>Gofynnwyd a fyddai modd i'r penaethiaid gael cyfle i wirio'r ddogfen unwaith eto - cytunwyd i wneud unrhyw newidiadau a'i hanfon i'r ysgolion i'w gwirio er mwyn eu hanfon yn ôl erbyn dydd Mercher 05 Mai 10</p> <p>Gofynnwyd am wybodaeth ystadegol gyffelyb ar gyfer Ysgol Uwchradd y Gader.</p> <p>Cytunwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - swyddogion i wirio'r pecyn ystadegol yn unol â'r uchod a'i gylchredeg yn electroneg i ysgolion - swyddogion i baratoi ystod o wybodaeth gyffelyb ar Ysgol Uwchradd y Gader - ysgolion i wirio gwybodaeth ar gyfer eu hysgolion hwy a'i dychwelyd at swyddogion - swyddogion i ymgorffori'r holl newidiadau mewn pecyn cyfansawdd a'i gylchredeg gyda phapurau cyfarfod nesaf y PAD 	TB	30/4
			TB	30/4
			Penaethiaid ysgolion	5/5
			TB	7/5
6.	Ceisiadau am wybodaeth bellach	<p>Tynnwyd sylw at 2 ddogfen a oedd eisoes wedi eu rhannu i'r ysgolion sef <i>Cylchlythyr 021/2009: Cynigion Trefniadaeth Ysgolion (Llywodraeth y Cynulliad)</i>, a phapur crynodol o reoliadau ar gyfer ffederaleiddio ysgolion a luniwyd gan SW. Eglurwyd bod posibl anfon y papurau allan yn electroneg neu ar bapur at unrhyw un a fyddai'n dymuno derbyn copi.</p> <p>Cytunwyd â chais i anfon copïau electroneg o'r uchod at ysgolion eto</p>	SW	30/4
7.	Unrhyw Fater Arall	Dim		
8.	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf	<p>13 Mai 2010 am 18:30</p> <p>Atgoffwyd y Panel y byddai Dylan Bryn yn dod i'r cyfarfod i egluro'r broses o gynnal yr Asesiad o Effaith Ieithyddol a Chymunedol a hefyd y byddai Hefin Owen yn mynychu i egluro materion cyllidol.</p> <p>Yn y cyfarfod nesaf bwriedir rhannu yn grwpiau i drafod</p>		

		<p>opsiynau a modelau a ffafir er mwyn datblygu dadansoddiadau o'r modelau i'w trafod yn y 3ydd cyfarfod.</p> <p>Byddai cofnodion y cyfarfod hwn yn cael eu hanfon i'r penaethiaid ynghyd â newyddlen er mwyn eu gwirio a'u cytuno yng nghyfarfod nesaf y PAD cyn eu cyhoeddi.</p>		
9.	Cloi	<p>Daeth y cyfarfod i ben gyda LSR yn nodi ei bod yn edrych ymlaen at gydweithio â'r aelodau ac y byddai yn croesawu sylwadau ar y broses a barn ar unrhyw fodelau a ffafir gan aelodau'r PAD.</p>		

Trefniadaeth Ysgolion Cynradd

Addysg

Cyfarfod o: Banel Adolygu Dalgylch Y Gader (2)

Dyddiad: 13 Mai 2010

Preseanol: Liz Saville Roberts (LSD); Dewi R Jones (DRJ); Seimon Williams (SW); Tony Bate (TB); John Blake (JB); Gareth Williams (GW); Gwilym R Hughes (GRH); Cyng Dewi Owen (DO); Cyng Linda Morgan (LM); Cyng Gethin Glyn Williams (GGW); Cyng John Pughe Roberts (JPR); Cyng Louise Hughes (LH); Parch. Robert Townsend (RT); Ann Williams (AW); Derec Jones (DJ); Simon Evans (SE); Wil Williams (WW); Peter Jones (PJ); Elin Gapper (EG); Nia Edwards (NE); Eleri Jones (EJ); Gwawr Davalan (GD); Meinir W Jones (MWJ); Geraint Evans (GE); Iwan Parry (IP); Olwen Jones (OJ) John Hughes (JH); Bethan Kelly (BK); Peter Maddocks (PM); Cyng Dyfrig Siencyn (DS); Sioned Roberts (SR); Erin Jones (EJ); Kerry Wyn Parry (KWP); Rhys Llywelyn (RhLl); Helen Davenport Parry (HDP); Dwryd Williams (DW); Algyn G Owen (AGO); Aranwen Manzini-Hughes (AMH); Helen Jones (HJ); Gwenan Morgan Owen (GMO); Victoria Lloyd (VLI) Catherine Davey (CD) Dr Ian Rees (IR); Andy Pym (AP), Hefin Owen (HO)

Ymddiheuriadau: Janet Preston (JP); Jamie Medhurst (JM); Peter Cook (PC); Sara Price (SP);

Crynodeb gweithredol

(Nodi pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod, a nodi unrhyw bwyntiau sydd angen eu cyfathrebu i fforwm arall; gan bwy, erbyn pryd)

Rhif Eitem	Eitem/ Pwnc	Gweithrediad	Gan	Erbyn

Cofnod Llawn

Rhif Eitem	Eitem / Pwnc	Gweithrediad	Gan	Erbyn
1.	Croeso ac ymddiheuriadau	Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan DRJ a chyflwynodd y swyddogion a chynghorwyr y sir i'r panel. Ymddiheuriadau: Gareth Jones; Peter Cook.		

2.	Materion ers y cyfarfod diwethaf	<p><u>Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf</u></p> <p>Nodwyd fod angen ychwanegu enw Catherine Davey at y rhestr presenoldeb.</p> <p>Mae angen ychwanegu ‘cynghorau cymuned’ i bwynt 4.</p> <p>Gyda’r newidiadau uchod derbyniwyd ac eiliwyd y cofnodion yn rhai cywir.</p> <p><u>Newyddlen 1</u></p> <p>Darllenwyd y newyddlen ac fe’i derbyniwyd yn gywir. Cytunwyd y byddai’n cael ei rhannu’n gyhoeddus yn awr.</p> <p><u>Dadansoddiad Ystadegol</u></p> <p>Cynigwyd rhai newidiadau pellach i’r ddogfen ystadegol sef:</p> <p>Pwynt 15 – nid oes dim plant yn trafailio mwy na 20 munud i ysgol Llanfachreth.</p> <p>Pwynt 8 – Angen gwirio ffigyrau Brithdir</p> <p>Pwynt 11 – dal yn aneglur a yw rhai o’r ystafelloedd yn cael eu rhannu neu ddim.</p> <p>Mae angen ychwanegu statws eglwysig yr ysgolion i’r ddogfen.</p> <p>Cyflwynwyd ychydig o wybodaeth ystadegol ar Ysgol Y Gader gan egluro y bydd mwy o wybodaeth erbyn y cyfarfod nesaf.</p>		
3.	Asesiad Effaith Ieithyddol, Cymunedol ac Economaidd	<p>Cyflwynodd DRJ Dylan Bryn i’r Panel.</p> <p>Diolchodd Dylan am y gwahoddiad i’r cyfarfod a chyflwynodd ei hun drwy egluro ei rôl a’r gwaith y bydd yn ei wneud fel ymgynghorydd. Eglurodd ei fod eisoes wedi gwneud y gwaith yma ar ardrawiad iaith a chymunedol yn nalgylchoedd Tywyn a Y Berwyn.</p> <p>Eglurodd y broses er mwyn casglu barn ar sefyllfa ieithyddol yr ysgolion ar hyn o bryd. Bydd hefyd yn rhannu holiadur cymunedol i’r ysgolion i rannu â’r rhieni, eglurwyd y byddai hefyd yn cael ei rannu â sefydliadau a chymdeithasau yn y dalgylch yn ogystal â bod ar wefan Gwynedd. Bydd yr ymgynghoriad yn cymeryd mis a bydd yn adrodd yn ôl i gyfarfod arbennig o’r PAD. Cynigwyd 29 Mehefin 2010 fel dyddiad ar gyfer y cyfarfod arbennig. Cytunwyd i amlinellu amserlen i’w rhannu â’r penaethiaid i’w chytuno.</p> <p>Bydd hefyd yn edrych ar y dimensiwn economaidd gan edrych ar gyflogaeth, gwariant a.y.b. yn y dalgylchoedd.</p>		
4.	Materion cyllidol	<p>Cyflwynodd Hefin Owen bapur ar ddyraniad ysgolion cynradd ac eglurodd y ffeithiau cyllidol yn y ddogfen.</p>		
5.	Trafodaeth ar fodelau	<p>Rhannwyd i grwpiau er mwyn derbyn sylwadau ar lunio modelau. Gofynnwyd i’r grwpiau nodi unrhyw sylwadau neu fodelau ar y daflen ‘Trafodaethau Grŵp’ ac i un aelod adrodd yn ôl ar syniadau’r grŵp. Gwahoddwyd modelau gan y</p>		

	<p>grwpiau ond pwysleisiwyd y byddai'r Sir yn ychwanegu rhai eraill hefyd.</p> <p>Grŵp 1</p> <p>Ei gweld yn anodd cynnig efo modelau ond nodwyd sylwadau ar beth fyddai'n ddymunol ei gadw neu ei newid: Cadw addysg wledig, efallai gydag ysgol wledig newydd . Ystyried costau cymunedol a chymdeithasol i'r dyfodol. Ysgol gydol oes i Ddolgellau a diogelu ysgol Y Gader. Nodwyd bod Y Friog yn awyddus iawn i aros yn nalgylch Y Gader.</p> <p>Grŵp 2</p> <p>Ystyried ysgol newydd i Rydymain, Llanfachreth a Brithdir.</p> <p>Gostwng niferoedd Dolgellau drwy anfon y plant i ysgolion gwledig.</p> <p>Rhydymain, Llanfachreth a Brithdir i glystyru.</p> <p>Ysgol newydd i Rydymain, Llanfachreth, Brithdir a Dinas Mawddwy.</p> <p>Ysgol Gynradd Dolgellau yn cau a chreu ysgol gydol oes gyda Y Gader.</p> <p>Dwy ysgol newydd i Bro Wnion a Bro Mawddach gyda Dinas Mawddwy a Y Friog yn clymu i mewn i hyn.</p> <p>Cadw'r ysgolion i gyd ar agor ond datblygu cydweithio.</p> <p>Cau'r 9 ysgol a chreu un ysgol gydol oes.</p> <p>Cau Llanfachreth a symud y plant i Ieuan Gwynedd.</p> <p>Nodwyd fod gan Ysgol Rhydymain Uned Addysg Anghenion Arbennig (Awtistiaeth).</p> <p>Grwp 3</p> <p>Uno adrannau babanod ac iau Ysgol Gynradd Dolgellau mewn adeilad newydd gydag adnoddau a fyddai'n gallu cael eu defnyddio gan ysgolion eraill y cyffiniau.</p> <p>Grwp 4</p> <p>Llanfachreth i barhau i gydweithio ag un ysgol.</p> <p>Llanfachreth i barhau i gydweithio â dwy neu dair ysgol.</p> <p>Cadw addysg wledig.</p> <p>Trin ysgolion gwledig yr un fath.</p> <p>Ysgol ardal wledig mewn safle canolog yn ddaearyddol.</p> <p>Ysgol gydol oes yn y drefn gan sicrhau manteision cwricwlaidd i'r ysgolion gwledig.</p> <p>- Diolchwyd i'r grwpiau am eu cyfraniadau. Bydd y modelau yn cael eu costio erbyn y cyfarfod nesaf. Mae croeso i unrhyw un sydd am gyflwyno modelau neu sylwadau pellach gysylltu efo Seimon Williams erbyn 18 Mai 2010</p>		
--	---	--	--

6.	Dyddiad y cyfarfod nesaf	Panel Adolygu Dalgylch 3 – 25/05/10 Ysgol y Gader		
7.	Cloi	Diolchwyd I bawb am eu parodrwydd I gyfrannu I'r drafodaeth		

Trefniadaeth Ysgolion Cynradd

Addysg

Cyfarfod o: Banel Adolygu Dalgylch Y Gader (3) **Dyddiad:** 25 Mai 2010

Presennol: Cyng Liz Saville Roberts (LSD); Dewi R Jones (DRJ); Seimon Williams (SW); Tony Bate (TB); Hefin Owen (HO); John Blake (JB); Gareth Williams (GW); Gwilym R Hughes (GRH); Cyng Linda Morgan (LM); Cyng Gethin Glyn Williams (GGW); Cyng John Pughe Roberts (JPR); Parch. Robert Townsend (RT); Ann Williams (AW); Derec Jones (DJ); Simon Evans (SE); Wil Williams (WW); Peter Jones (PJ); Elin Gapper (EG); Nia Edwards (NE); Eleri Jones (EJ); Gwawr Davalan (GD); Meinir W Jones (MWJ); Iwan Parry (IP); Olwen Jones (OJ) John Hughes (JH); Bethan Kelly (BK); Peter Maddocks (PM); Cyng Dyfrig Siencyn (DS); Sioned Roberts (SR); Peter Cook (PC); Erin Jones (EJ); Victoria Lloyd (VLI); Kerry Wyn Parry (KWP); Rhys Llywelyn (RhLl); Helen Davenport Parry (HDP); Dwryd Williams (DW); Allyn G Owen (AGO); Aranwen Manzini-Hughes (AMH); Helen Jones (HJ); Gwenan Morgan Owen (GMO); Sara Price (SP); Catherine Davey (CD) Andrew Pym (AP), Hedd Pugh (HP); Rona Lewis (RL); Gareth Jones (GJ).

Ymddiheuriadau: Cyng Dewi Owen (DO); Cyng Louise Hughes (LH); Geraint Evans (GE); Janet Preston (JP); Jamie Medhurst (JM); Dr Ian Rees (IR);

Crynodeb gweithredol

(Nodi pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod, a nodi unrhyw bwyntiau sydd angen eu cyfathrebu i fforwm arall; gan bwy, erbyn pryd)

Rhif Eitem	Eitem/ Pwnc	Gweithrediad	Gan	Erbyn

Cofnod Llawn

Rhif Eitem	Eitem / Pwnc	Gweithrediad	Gan	Erbyn
1.	Croeso ac ymddiheuriadau	Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan DRJ. Ymddiheuriadau: Dr Ian Rees, Cyng Louise Hughes; Cyng Dewi Owen; Geraint Evans; Janet Preston; Jamie Medhurst.		
2.	Materion ers y cyfarfod diwethaf	<u>Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf</u>		

		<p>Aethpwyd dros y cofnodion ac fe'u derbyniwyd a'u heilio fel rhai cywir.</p> <p><u>Newyddlen</u></p> <p>Eglurwyd y byddai'r ail newyddlen yn cael ei pharatoi yn dilyn y cyfarfod heno.</p>		
3.	Modelau	<p>Cyflwynodd Tony Bate bapur yn amlinellu modelau posib gyda Hefin Owen yn cyfrannu ar faterion cyllidol.</p> <p>Cafwyd y sylwadau isod wrth i TB egluro'r opsiynau:</p> <p>Opsiwn 1 – ni fyddai fawr ddim arbedion o gydweithio.</p> <p style="padding-left: 40px;">A fyddai hyn yn golygu na fyddai hi'n bosib cydweithio rhwng rhai o'r ysgolion?</p> <p>Na, bydd posibl i rai o'r ysgolion gydweithio.</p> <p style="padding-left: 40px;">Byddai cydweithio yn golygu mwy o gostau teithio i ymwneud â phrosiectau rhwng yr ysgolion.</p> <p>Byddai ysgol ffederal yn arbed ychydig iawn o arian gan mai un pennaeth fyddai i fwy nag un ysgol, ond ni fyddai arbedion ariannol sylweddol o sefydlu trefniadau o gydweithio (gan gynnwys ffederaleiddio)</p> <p>Opsiwn 2 - nodwyd y byddai cynnig ysgol i ddisgyblion y dalgylch yn unig yn anodd ei reoli gan fod gan rieni hawl i wneud cais i ba bynnag ysgol a ddewisant.</p> <p>Byddai angen datblygu ysgol Llanelltyd er mwyn derbyn plant o'r ysgolion eraill.</p> <p>A fydd toriadau'r Llywodraeth yn effeithio ar faint o arian fydd ar gael i ddatblygu ysgolion a gwneud newidiadau? Atebwyd fod tybiaeth y byddai llai o arian ond bydd felly angen rhoi cais cryf yn unol â'r strategaeth.</p> <p>Beth yw'r amseriad y gallwn ddisgwyl gweld unrhyw arbedion yn digwydd? Hyn yn ddibynnol ar y cynllun. Esboniwyd y drefn o adnabod arbedion yn nalgylch Tywyn petai'r ad-drefnu yno yn digwydd yn unol â'r amserlen a adnabuwyd.</p> <p>A oes ffigur yn nodi isafswm o faint sydd angen ei arbed? Nid oes ffigur wedi'i adnabod - mae'r Cyngor yn dilyn y strategaeth fesul dalgylch. Nodwyd fod ymgynghoriad yn mynd rhag blaen ar gynnig i gadw 20% o arbedion ym mhob dalgylch a grëwyd wrth ad-drefnu o fewn y dalgylch honno.</p> <p>O ble daw'r arian i ymestyn neu addasu ysgolion?</p> <p>Bydd cais yn cael ei wneud i'r Cynulliad am arian i'r dalgylch gyfan nid ar gyfer ysgolion unigol. Bydd y Llywodraeth yn disgwyl cyfraniad o leiaf 30% gan y Cyngor hefyd.</p> <p>Opsiwn 5 – Eglurwyd ei bod yn anodd costio model gydol oes oherwydd nad yw'n amlwg pa arbedion fyddai yn digwydd, ond bydd arbedion yn sicr o ddigwydd o rannu cyfleusterau, adnoddau a staff.</p> <p>Opsiwn 7 – Beth yw ysgol loeren? Ysgolion yng nghyffiniau'r</p>		

		<p>ysgol gydol oes yn defnyddio arbenigedd ac adnoddau'r dref.</p> <p>Pam fod ysgolion Brithdir a Llanfachreth yn cau ym mhob model sydd ar y papur pan mae ganddynt adnoddau da iawn i'w cynnig? Dyma'r modelau a ddaeth allan o'r cyfarfod diwethaf o'r PAD. Nodwyd serch hynny fod yna modelau nad oedd yn argymhell cau'r ddwy ysgol dan sylw.</p> <p>Opsiwn 12 - Mae'r pellter y byddai disgyblion Y Friog yn trafelilio yn mynd i fod yr un pellter i Fro Dysynni ac a fyddai i Ddolgellau - pam nad yw'r Friog wedi cael cynnig lle yn Nolgellau fel mae Dinas Mawddwy wedi ei gael? Nodwyd fod mwyafrif y modelau yn argymhell cadw'r Friog o fewn dalgylch y Gader tra bod un model yn awgrymu cau'r ysgol a chynnig lle i blant y dalgylch yn ysgol fro arfaethedig newydd Bro Dysynni.</p> <p>Nodwyd na fu digon o amser i'r ysgolion drafod y modelau gyda'u cyrff llywodraethol cyn dod i'r PAD i drafod. Cynigwyd rhoi cyfle pellach i ysgolion a chyrrff llywodraethol gyflwyno sylwadau erbyn 18 Mehefin 2010.</p> <p>Rhannwyd y Panel i grwpiau er mwyn blaenoriaethu neu ddiystyru modelau. Pwysleisiwyd y bydd yn bosibl dod â rhannau o fodelau at ei gilydd er mwyn gwneud un model dalgylchol.</p>		
4.	Trafodaeth Gyffredinol	<p>Sylwadau'r grwpiau (gweler dogfen cyflwynwyd at sylw'r Panel yn amlinellu'r modelau isod):</p> <p><u>Grŵp 1</u></p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cadw model 1 2. Model 2(ii) a 4 (i) at ei gilydd i gael mwy o drafodaeth, sef 2 ysgol ardal 3. Model 3 ddim yn opsiwn 4. Angen mwy o drafod ar fodel 4(ii) 5. Modelau 5 a 6 – dim sylwadau 6. Model 7 - angen mwy o drafod - rhannu i 2 opsiwn - 1 = dim newid i'r Gader ond creu ysgol ardal 3-11 i'r 4, wedyn 5 lloeren wledig 7. Modelau 8, 9, 10 – heb drafod 8. Modelau 11 a 12 – gwrthod <p><u>Grŵp 2</u></p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cydweithio – agored i drafod 2. 2(ii) a 4(i) - angen trafodaeth bellach - 2(iii) allan ohoni 3. 3 allan ohoni 4. gweler 2 uchod 5. Opsiwn 5 – allan ohoni 6. Opsiwn 6 allan ohoni 7. Opsiwn 7 – angen trafod hyn ymhellach – ysgol gydol oes ond dim ond ar safle newydd – nodi bod rhai yn anhapus gyda'r syniad ond y mwyafrif yn cytuno i archwilio hwn ymhellach 8. 8 allan ohoni 9. 9 allan ohoni 		

		<p>10. Edrych eto ar Opsiwn 10, sef ysgol tref 3-16, Friog a Dinas Mawddwy yn parhau, gweddill yn cau i agor ysgol ardal newydd</p> <p>11. 11 allan ohoni</p> <p>12. 12 allan ohoni</p> <p>13. 13 allan ohoni</p> <p>Barod i drafod ysgol gydol oes. Angen diogelu dyfodol Ysgol y Gader</p> <p>Angen mwy o wybodaeth ar beth yw ysgol loeren, clystru, cydweithio ayb</p> <p>Angen diffinio “lloeren” yn y newyddlen nesaf. SW i gyfieithu ac anfon opsiwn Clogau i bob ysgol.</p> <p><u>Grŵp 3</u></p> <p>Heb drafod unrhyw fodolau penodol ond yn cynnig y sylwadau isod:</p> <p>Trafod manteision ysgolion gwledig a threfol.</p> <p>Dinas Mawddwy efallai yn ystyried ysgol loeren ond nodi mai un person sy'n siarad ar ran yr ysgol.</p> <p>Pryder am sefydlu un ysgol ardal gyda dros 400 o blant.</p> <p>Angen uwchraddio rhai ysgolion o ran cyflwr ac addasrwydd iaith y buarth yn allweddol i'r ystyriaeth.</p> <p>Rhyngweithio â'r gymuned yn greiddiol.</p> <p>Ysgol y dref ddim yn gweld tegwch iddynt uno gyda'r ysgol uwchradd.</p> <p>Un farn o gau 6 ysgol wledig ac adeiladu un ysgol ardal newydd, ond lleoliad yn anodd oherwydd daearyddiaeth (Opsiwn 10).</p> <p>Nodi bod sefyllfa'r Gader yn fregus a bod cyfle i rannu arbenigeddau ac adnoddau ar draws y dalgylch i gryfhau hyn</p> <p>Symud plant o un ysgol i un arall – a fyddai gofal ar y bws am hyn – angen prisio hyn i'r costau teithio? Nodwyd nad oedd polisi cludiant presennol y Cyngor yn darparu gofal ar fysiau.</p> <p>Cynigodd rhiant lywodraethwraig Ysgol Y Clogau anfon cyflwyniad ar opsiwn 7 a luniwyd ganddynt. Cytunwyd i'r Cyngor ei gyfieithu a'i anfon allan i'r ysgolion i gyd.</p>		
5.	Unrhyw Fater arall	Cafwyd cais i benaethiaid yr ysgolion ymweld ag ysgolion yn y de.		
6.	Cyfarfod Arbennig	Cyfarfod arbennig gyda Dylan Bryn Roberts ar 29 Mehefin 2010.		
6.	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf	6 Gorffennaf 2010 am 18:30		
7.	Cloi	Diolchwyd i bawb am eu presenoldeb a'u parodrwydd i gyfrannu i'r drafodaeth		

Trefniadaeth Ysgolion Cynradd

Addysg

Cyfarfod o: Banel Adolygu Dalgylch Y Gader (4)

Dyddiad: 6 Gorffennaf 2010

Preseanol: Cyng Liz Saville Roberts (LSD); Dewi R Jones (DRJ); Seimon Williams (SW); Tony Bate (TB); Hefin Owen (HO); John Blake (JB); Gareth Williams (GW); Gwilym R Hughes (GRH); Cyng Linda Morgan (LM); Cyng Gethin Glyn Williams (GGW); Cyng John Pughe Roberts (JPR); Parch. Robert Townsend (RT); Ann Williams (AW); Derec Jones (DJ); Simon Evans (SE); Wil Williams (WW); Peter Jones (PJ); Elin Gapper (EG); Nia Edwards (NE); Eleri Jones (EJ); Gwawr Davalan (GD); Meinir W Jones (MWJ); Iwan Parry (IP); Olwen Jones (OJ) John Hughes (JH); Bethan Kellly (BK); Peter Maddocks (PM); Cyng Dyfrig Siencyn (DS); Sioned Roberts (SR); Peter Cook (PC); Erin Jones (EJ); Victoria Lloyd (VLI); Kerry Wyn Parry (KWP); Rhys Llywelyn (RhLI); Helen Davenport Parry (HDP); Dwryd Williams (DW); Algyn G Owen (AGO); Aranwen Manzini-Hughes (AMH); Helen Jones (HJ); Gwenan Morgan Owen (GMO); Sara Price (SP); Catherine Davey (CD) Andrew Pym (AP), Hedd Pugh (HP); Rona Lewis (RL); Gareth Jones (GJ)

Ymddiheuriadau: Parch. Robert Townsend, Cyng. Dyfrig Siencyn, Sioned Roberts, Simon Evans oherwydd profedigaeth- y panel yn cydymdeimlo.

Cofnod Llawn

Rhif Eitem	Eitem / Pwnc	Gweithrediad	Gan	Erbyn
1.	Croeso ac ymddiheuriadau	Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan DRJ. Ymddiheuriadau: Parch. Robert Townsend, Cyng. Dyfrig Siencyn, Sioned Roberts, Simon Evans oherwydd profedigaeth- y panel yn cydymdeimlo.		
2.	Materion ers y cyfarfod diwethaf	<u>Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf</u> Aethpwyd dros y cofnodion ac fe'u derbyniwyd a'u heilio fel rhai cywir. <u>Newyddlen</u> Newyddlen ar ol y cyfarfod diwethaf wedi ei derbyn.		
3.	Asesiad o effaith ieithyddol, cymunedol ac economaidd	Cyflwynodd Dylan Bryn bapur yn amlinellu asesiad o effaith ieithyddol, cymunedol ac economaidd. Cafwyd y sylwadau isod wrth i DB egluro'r opsiynau: <u>Ieithyddol:</u>		

		<p>Pa ffactorau sy'n effeithio ar y "sgor" + neu - ?</p> <p>Amryw o ffactorau-nid dim ond y ganran sy'n siarad Cymraeg..</p> <p>Faint o bwysig ydi "Iaith y Buarth" mewn gwirionedd?</p> <p>90% o ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol y Gader yn gwneud TGAU Cymraeg iaith gyntaf, sy'n profi fod hyfedredd yn yr iaith.</p> <p>Disgyblion yn dewis gwneud pynciau trwy gyfrwng y Saesneg am eu bod yn bwriadu mynd ymlaen i addysg uwch drwy gyfrwng y Saesneg neu yn Lloegr.</p> <p>Ydi pob pwnc yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y ddwy iaith yn Ysgol y Gader?</p> <p>Ydi.</p> <p>Diffyg gwaith yn yr ardal yn golygu fod pobl ifanc yn gorfod gadael yr ardal I chwilio am swyddi.</p> <p>Y Gymraeg fel iaith yn "sgil" yng Ngwynedd. Gallu ymdrin a'r iaith yn hanfodol er mwyn gallu gwneud swyddi proffesiynol yn y Sir.</p> <p>160 ymateb wedi bod i'r ymchwil.</p> <p><u>Economaidd:</u></p> <p>Mae cau ysgolion yn mynd i daro Dolgellau yn galed iawn.</p> <p>Tynnu sylw at y ffaith fod yr ymchwil yn cynnwys pob aelod o staff yr ysgol pan yn ystyried yr incwm sy'n cael ei gynhyrchu gan yr ysgol.</p> <p>Angen gwell cyd-destun ar gyfer yr ymchwil economaidd.</p>		
4.	Adborth o gyfarfodydd staff, llywodraethwyr a rhieni	<p>Cyflwynodd Gareth Williams amlinelliad o adborth o gyfarfodydd staff, llywodraethwyr a rhieni.</p> <p>Aeth GW ymlaen i wneud y sylwadau isod:</p> <p>Ymddiheuro am fethu ymweld ag Ysgol Gynradd Dolgellau.</p> <p>Diolch am gwrteisi mewn sefyllfa anodd.</p> <p><u>Ymateb cyffredinol:</u></p> <p>Pryder staff am eu swyddi.</p> <p>Y Friog yn falch o gael eu cynnwys fel rhan o ardal Y Gader.</p>		
5.	Modelau	<p>Cyflwynodd Tony Bate bapur yn amlinellu modelau posib, matrices strategaeth, rhai manteision ag anfanteision posib I'r modelau ac atodiad.</p> <p>Cafwyd y sylwadau isod wrth i TB egluro'r opsiynau:</p> <p><u>Model 3(b):</u></p> <p>Ddim yn ymarferol cael plant o wahanol oedran mewn gwahanol safleoedd ar draws yr ardal.</p> <p>Lle fyddai plant oedran Bl 5+6 Dolgellau yn mynd-dim lle yn yr</p>		

		<p>ysgol bresenol.</p> <p>Oes na le i adeiladu ysgol newydd yn Dolgellau-os ddim, nid yw'r model yma yn bosib.</p> <p>Seimon Williams yn datgan fod pensaer yn ymchwilio yn yr ardal i geisio canfod y posibiladau o adeiladu ysgol newydd. Chwilio am dir addas i adeiladu ysgol gydol oes. Os nad oes tir addas ar gael nid yw'r model yma yn bosib.</p> <p>Dewi Jones- ysgolion gwledig yn rhy fychan pe bai'r model yma yn cael ei wireddu.</p> <p>Pryder gan fod penderfyniad mewn 6 diwrnod nad oes llawer o amser i'r ysgolion drafod modelau 3 gyda rhieni a llywodraethwyr.</p> <p><u>Model 4(a):</u></p> <p>Angen ystyried be sy'n digwydd i'r ysgolion eraill.</p> <p>Dewi Jones yn crynhoi drwy gael consensws barn gyffredinol fel a ganlyn:</p> <p><u>Model 1:</u></p> <p>Patrwm fel ag y mae ddim yn gynladwy.</p> <p><u>Model 2:</u></p> <p>Dymuno gweld trafodaethau pellach ar y model yma.</p> <p><u>Model 3:</u></p> <p>Dim yn dymuno gweld plant yn mynd i ysgol gydol oes mor ifanc.</p> <p>Liz Saville Roberts yn datgan nad yw'n barod i gyhoeddi erbyn dydd llun- eisiau mwy o wybodaeth. Pethau ddim yn ddigon clir ar hyn o bryd i allu gwneud cyhoeddiad.</p> <p>Dim cyfarfod dydd llun.</p>		
6.	Unrhyw fater arall	<p>LSR am ddychwelyd gyda argymhelliad ar ol cael cyfle i ystyried y ffeithiau ar ol cael mwy o wybodaeth.</p> <p>DRJ yn gofyn un yntau dau gyfarfod pellach?</p> <p>LSR yn argymhell dau gyfarfod.</p> <p>Awgrym fod barn plant yn cael ei gynnwys mewn trafodaethau cyffelyb yn y dyfodol mewn ardaloedd eraill.</p>		
6.	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf	<p>I'w trefnu cyn diwedd y tymor a'u hanfon i'r ysgolion.</p>		
7.	Cloi	<p>Diolchwyd i bawb am eu presenoldeb a'u parodrwydd i gyfrannu i'r drafodaeth</p>		

Trefniadaeth Ysgolion

Addysg

Cyfarfod: Panel Adolygu Dalgylch Y Gader 5 (PAD 5) **Dyddiad:** 25 Mai 2011

Preseanol:

Swyddogion

Cyng Liz Saville Roberts (LSR); Dewi R Jones (DRJ); Tony Bate (TB); Hefin Owen (HO); Dafydd Gibbard (DG); Guto Rhys Huws (GRhH); Gwenan Jones-Parry (GJ-P)

Cynghorwyr

Cyng. Linda Morgan; Cyng. Gethin Glyn Williams; Cyng. John Pughe Roberts; Cyng. Dyfrig Siencyn; Cyng. Louise Hughes

Pennaethiaid

Helen Jones (Ysgol Y Clogau); Peter Maddocks (Ysgol Y Gader); Dwryd Williams (Ysgol Ieuan Gwynedd); Kerry Wyn Parry (Ysgol Y Ganllwyd); Meinir Wyn Jones (Ysgol Brithdir); Nia Edwards (Ysgol Dinas Mawddwy); Olwen Jones (Ysgol Llanelltyd); Catrin Roberts (Ysgol Y Friog); Ann Williams (Ysgol Llanfachreth)

Cadeiryddion Llywodraethwyr

Peter Cook (Ysgol Y Friog); Nia Wyn Jones (Ysgol Ieuan Gwynedd); Gwenan Morgan Owen (Ysgol Y Clogau); Eleri Jones (Ysgol Dinas Mawddwy); John Hughes (Ysgol Llanelltyd); Geraint Evans (Ysgol Brithdir); Derec Jones (Ysgol Llanfachreth);

Rhiant Llywodraethwyr

Gwawr H Davalan (Ysgol Dinas Mawddwy); Bethan Kelly (Ysgol Llanelltyd); Iwan Parry (Ysgol Brithdir); Elin Gapper (Ysgol Cynradd Dolgellau); Andy Pym (Ysgol Y Friog); Aranwen Manzini-Hughes (Ysgol Ieuan Gwynedd); Alwyn Owen (Ysgol Ieuan Gwynedd); Helen Parry (Ysgol Ganllwyd); Simon Evans (Ysgol Llanfachreth); Meurig Ashton (Ysgol Ganllwyd); Sara Price (Ysgol Y Clogau)

Eraill

Y Parch Robert Townsend - Cynrychiolydd Esgobaeth Bangor (RT)

Ymddiheuriadau: Wil Williams (Pennaeth Ysgol Cynradd Dolgellau); Pete Jones (Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Cynradd Dolgellau); Rona Lewis (Coleg Meirion Dwyfor); Hedd Pugh (Coleg Meirion Dwyfor)

Cofnod Llawn

Rhif Eitem	Eitem / Pwnc	Gweithrediad	Gan	Erb yn
1.	Croeso ac Ymddiheuriadau	<p>DRJ yn croesawu pawb ac yn ymddiheuro am yr oediad ers y cyfarfod diwethaf.</p> <p>Cyflwynwyd y Cyng. Liz Saville Roberts, Deilydd Portffolio Addysg a'r swyddogion:</p> <p>Dewi R. Jones - Pennaeth Addysg Tony Bate - Arweinydd Ad-drefnu Cynradd Dafydd Gibbard - Rheolwr Eiddo Hefin Owen - Rheolwr Cyllid Guto Rhys Huws - Cydlynnydd Rhaglen Ad-drefnu Cynradd-Uwchradd Gwenan Jones-Parry - Gweinyddwr Prosiect Ad-drefnu yn Cofnodi'r Cyfarfod</p>		
2.	Cefndir Yr Oediad	<p>Oediad wedi bod yn nhrefnadaeth y dalgylch oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Problemau darganfod safleoedd addas • Angen mwy o waith i asesu/ymchwilio posibiliadau datblygu neu addasu safleoedd presennol • Dull gyllido cyfalaf Y Cynulliad wedi newid • Dirwasgiad a thoriad sylweddol mewn arian cyfalaf cyhoeddus <p>Nodwyd pwysigrwydd cyd-destun y sefyllfa cyn trafod materion dalgylch Dolgellau yn benodol.</p> <p>Nodwyd fod Adolygiad Strategaeth Ad-drefnu a dogfen Addysg Tuag at 2025 wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn sydd yn golygu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Angen edrych ar holl gyfundrefn addysg dalgylch wrth ad-drefnu ac nid ysgolion cynradd yn unig • Sefydlu Gweithgor Gwella Trefniadaeth Addysg - grŵp traws pleidiol i roi cefnogaeth I LSR ac I fynegi barn • Gallu gan LSR a swyddogion I ddatblygu modelau cyn dechrau trafodaethau gyda'r dalgylch, ac I gwblhau gwaith ymlaen llaw • Hawl i edrych ar sefyllfaoedd argyfyngus. Hyn i geisio osgoi sefyllfa fregys e.e. Llawr Y Betws • Yr amserlen ddemocrataidd - rhaid mynd â cheisiadau trwy'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc, Bwrdd y Cyngor a'r Cyngor Llawn felly rhaid paratoi ceisiadau i gyd-fynd ag amserlen y cyfarfodydd hyn • Cyfarfod aelodau etholedig lleol cyn dechrau trafodaethau PAD <p>Nodwyd hefyd fod y Cyngor hefyd wedi derbyn adroddiad gan ffederasiwn penaethiaid sydd yn rhoi eu barn ar y broses ad-drefnu ysgolion. Prif bwyntiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Angen ad-drefnu ysgolion • Ysgolion dan 20 o blant yn anghynnaladwy • Y broses ad-drefnu'n araf • Angen amser digyswllt i benaethiaid allu cwblhau eu rôl arweiniol • Pryder am y sefyllfa ariannol, traean o ysgolion y sir yn y rhwyd diogelu, 		

		<p>gwasgu cyllidol ar ysgolion canolig eu maint a bwllch mawr rhwng gwariant y pen yn ysgolion bach a mawr</p> <p>2 fater cyllidol wedi codi:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Dirwasgiad - Cyngor Gwynedd (CG) yn gorfod arbed £38miliwn 2) Arian Cyfalaf y Cynulliad - 40% yn llai o arian cyfalaf cyhoeddus ar gael. Nodwyd fod dull ariannu'r Cynulliad wedi newid. Arferid cael trefn flynyddol o geisiadau, bellach bydd y Cynulliad yn gwahôdd bidiau fesul cyfnodau o flynyddoedd yn unol â Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain y Cynulliad <p>Nodwyd bod Awdurdodau wedi rhoi ceisiadau i mewn. CG wedi cyflwyno 2 gais; cais £10miliwn am Ysgol Gydol Oes yn Y Bala a £12miliwn am ysgol yn lle Ysgol Hafod Lon. Eglurwyd y byddai gwybodaeth ynglŷn â llwyddiant y ceisiadau yn ystod Haf 2011 a CG yn talu 30% o'r cais. Os bydd un neu'r ddau gais yn aflwyddiannus bydd raid i CG benderfynu a ydynt yn gallu ariannu ei hunain neu beidio. Pe byddai'r ceisiadau hyn yn aflwyddiannus byddai rhaid ail edrych ar y sefyllfa.</p> <p>Yn dilyn y newidiadau yma mae dau beth yn eu hamlygu eu hunain:</p> <ol style="list-style-type: none"> A) Creu newid yn yr ardal yn seiliedig ar gais cyfalaf i CG B) Wedi trafodaethau, os mai'r consensws yw newid uchelgeisiol, bydd rhaid aros hyd nes fydd ffenestr cyfalaf y Cynulliad ar agor <p>Wrth drafod rhaid cofio'r materion yma:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Argaeledd arian • Adnoddau staffio sydd ar gael i weithredu'r cynnig • Amserlen y cylch democrataidd a chyfyngiadau cyfnod purdah cyn etholiad mis Mai 2012 		
3.	<p>Cyflwyniad am Opsiynau Posib yn Dalgylch Dolgellau</p>	<p>Cyflwyniad 'PowerPoint' gan TB a DG.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Tref Dolgellau 2) Ochr Ddwyreiniol y Dalgylch 3) Ochr Orllewinol y Dalgylch <p>Ail nodi'r rhesymau dros oedi. Atgoffa bod 14 model eisoes wedi eu trafod yn ystod y 4 cyfarfod PAD blaenorol oedd yn cynnwys cydweithio, Ysgol Gydol Oes ac Ysgolion Ardal. Trafodaethau gyda staff, llywodraethwyr a rhieni ysgolion wedi eu cynnal.</p> <p><u>Tref Dolgellau</u></p> <p>Cadarnhau amheuan y PAD bod diffyg safle yn y dref. 2 model Ysgol Gydol Oes wedi cael eu crybwyll:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Plant Uwchradd a cynradd Dolgellau - 9.7 acer 2) Plant cynradd y dalgylch cyfan - 11.8 acer <p>Adran Eiddo wedi edrych ar 10 safle yn Nolgellau - cyflwynwyd map gyda'r safleoedd a thabl yn rhoi crynodeb o broblemau gyda'r safleoedd. Nid oes unrhyw un yn briodol oherwydd problemau llifogydd, problemau mynediad, diffyg lle, gwrthwynebiad gan Asiantaeth Amgylchedd, lonydd cul, lleoliad tu allan i'r ffin cynllunio. Trafodwyd y safleoedd fesul un a nodi'r prif broblemau gyda phob safle.</p> <p>Posib ychwanegu at safle'r Gader? Byddai'n rhaid datrys y problemau traffig. Dim posib lleoli'r plant i gyd ar y safle, posib lleoli CA2 ar safle'r Gader ond gyda buddsoddiad o £4.5miliwn – byddai'n rhaid dymchwel rhai adeiladau a chodi adeiladau newydd.</p> <p>Dangoswyd cynllun bras i roi syniad.</p> <p>Er bod problemau gyda safleoedd - mae'n bosib cadw'r cysyniad gydol oes ar gyfer tref</p>		

Dolgellau a chael y buddiannau:

- esmwytho'r broses trosglwyddo
- cydweithio ar y cwricwlwm
- rhannu arbenigedd staff
- cytuno ar drefn rheolaeth/llywodraethu newydd

Dwyrain y Dalgylch

Ardal fregus oherwydd;

- i. Yr angen i benodi penaethiaid
- ii. Nifer disgyblion yn isel mewn dwy o'r ysgolion
- iii. Rhagolygon niferoedd isel
- iv. Brithdir yn orlawn
- v. Dinas Mawddwy yn ddaearyddol ynysig

Ystyrir cadw safle Ysgol Dinas Mawddwy a'i gynnwys yn yr ysgol ardal oherwydd yr ysgol agosaf ato yw Glantwymyn ym Mhowys.

Yr awgrym ar gyfer trafodaeth yw ysgol ardal ar ddau safle: cau Brithdir, Llanfachreth ac Ieuan Gwynedd a chreu Safle 1 a chael ail safle yn lleoliad presennol ysgol Dinas Mawddwy. Mae opsiynau safle i'w trafod; safle presennol Ieuan Gwynedd a safle Brithdir. Dyma'r manylion:

- Safle Ieuan Gwynedd - Cost oddeutu £1.1 miliwn, safle presennol bron yn ddigonol mewn arwynebedd, angen 0.3 acer ychwanegol ac mae tir addas ar gael ond dim trafodaethau gyda'r perchennog wedi eu cynnal
- Safle Brithdir - Cost oddeutu £1.5 miliwn, safle presennol rhy fach, byddai angen prynu dipyn o dir, dim trafodaethau gyda'r perchennog wedi eu cynnal

Gyda'r ddau opsiwn bydd angen uwchraddio gofynion caeau chwarae a chreu gofod ar gyfer staff a gofod adnoddau i gyrraedd safonau ysgolion y 21 ganrif.

Cyllid ysgol ardal:

Amcangyfrif arbediad = £180,000 - £48,000 (cludiant) = £132,000

Pam ddim ystyried safle Llanfachreth?

Caed barn nad oedd yn leoliad ddaearyddol addas i'r ysgol ardal, ac hefyd ei bod yn bell o'r ail safle yn Dinas Mawddwy.

Beth am safle newydd yn hytrach nag addasu'r safle presennol?

Mae safleoedd ar gael ond mae'r gost oddeutu £4miliwn. Nid yw'n debygol y gallasai'r Cyngor ariannu'r opsiwn yma. Byddai rhaid aros i roi cais i'r Cynulliad.

Byddai angen ystyried cyflwyno bid o fewn ffenestr ariannu bidiau cyfalaf Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Os yn llwyddiannus bydd 2 flynedd o waith adeiladu, fyddai yn golygu na fyddai adeilad yn barod tan oddeutu 2017/2018 ar y cynharaf.

Nodwyd pryder o wneud rhywbeth ar frys a pheidio â chynllunio ar gyfer y tymor hir.

Nodwyd bod sefyllfa argyfyngus yn y Dwyrain a byddai gadael y sefyllfa tan hyn yn anodd.

		<p><u>Gorllewin y Dalgylch</u></p> <p>Dim datrysiad cadarn ar gyfer y rhan yma o'r dalgylch.</p> <p>Ymchwil wedi ei wneud ac mae'r safleoedd yn gyfyng. Angen gwaith ychwanegol cyn gallu cynnig ateb i'r ardal yma. Nodwyd mai ardal Dwyrain Dolgellau fydd yr ardal gyntaf I dderbyn sylw yn y cylch nesaf o drafodaethau.</p> <p>Cafwyd toriad am 10 munud i alluogi trafodaeth anffurfiol.</p>		
4.	Trafodaeth	<p>Agorwyd y drafodaeth (sylwadau'r gynulleidfa mewn italic).</p> <p><u>Ardal Dwyreiniol y Dalgylch</u></p> <p><i>Ardal Llanfachreth yng gweld anghydbwysedd clir yn y datblygiad wrth beidio â delio gyda Gorllewin y dalgylch. All safle ysgolion y Dwyrain effeithio'r ardal Orllewinol. Efallai bydd hanner plant Brithdir/Llanfachreth yn mynychu ysgol Dolgellau pe sefydlid ysgol ardal yn Ieuan Gwynedd.</i></p> <p><i>Cost cludiant o £48,000 - am ba hyd fydd hyn yn cael ei ddarparu gan ystyried bod rhaid i blant y Coleg dalu?</i></p> <p>Cyngor ddim yn oblygedig i dalu am gludiant plant 16+ a dim ond 20% o'r gost y gofynnir i'r myfyrwyr dalu. Mae'r Cyngor yn oblygedig o ddarparu cludiant i blant hyd at 16 oed.</p> <p><i>Beth fydd cynhwysedd yr ysgol newydd?</i></p> <p>Cyfanswm niferoedd y tair ysgol nawr gyda 10% ychwanegol.</p> <p><i>Gyda'r Ysgol Ardal rhaid cynllunio i'r ganrif nesaf felly angen 4 dosbarth dysgu hyblyg (meithrin a derbyn, blwyddyn 1 a 2, blwyddyn 3 a 4, blwyddyn 5 a 6). Ofn byddai ysgol i 80 yn rhy fach. I gael ysgol lwyddiannus mae angen cynhwysedd o 100-120. Bydd ysgol fwy yn gynaliadwy i'r dyfodol</i></p> <p><i>Yn ymarferol sut bydd safle yn cael ei addasu a'i gynnal ar yr un pryd?</i></p> <p>Mae datblygu safle a chynnal ysgol yn creu anhwylostod ond mae gan y Cyngor brofiad helaeth bellach o wneud y math hwn o brosiectau ac mae iechyd a diogelwch y plant a staff yn flaenoriaeth wrth i'r gwaith gael ei wneud.</p> <p><i>Cefnogaeth mewn egwyddor ond credu'n gryf bod rhaid gwneud yr ochr Ddwyreiniol a Gorllewinol ar yr un pryd i'r cynllun lwyddo. Risg i rieni symud eu plant i fynychu ysgol arall ac i'r ysgol ardal fod yn aflwyddiannus.</i></p> <p>Mae llawer o blant yn mynychu ysgolion tu allan i'w dalgylch ar hyn o bryd beth bynnag o fewn y dalgylch.</p> <p><i>Dinas Mawddwy yn safle addas iawn. Poeni am y plant sydd yn mynychu - beth am rannu dalgylch Brithdir fel bod mwy yn mynychu Dinas Mawddwy?</i></p> <p>Byddai rhaid ail edrych ar ffin dalgylchoedd cynradd i wneud hyn.</p> <p><i>Dinas Mawddwy yn ddaearyddol bell o'r ysgolion eraill - AA yn dweud Dinas Mawddwy i Frithdir yn 8.2milltir neu 11munud. Byddai cau Dinas Mawddwy yn medru golygu byddai rhai disgyblion yn gadael y Sir.</i></p> <p><i>Yn bosib y byddai rhieni Llanfachreth yn mynd â'u plant i ysgolion eraill yn hytrach na Rhydymain.</i></p> <p><i>Cafwyd cais am wybodaeth am niferoedd disgyblion yn yr ysgolion.</i></p> <p>Darparwyd y wybodaeth ynghyd â rhagolygon hyd at 2014.</p> <p><i>Niferoedd yn newid llawer 'llanw a thrai', Brithdir wedi bod yn isel ac Ieuan Gwynedd</i></p>		

wedi bod at 30 yn y gorffennol.

Ydi'r Cyngor wedi ystyried gwahanol ffurf o addysg fel sydd yn bodoli yn Awstralia a Sbaen? Pam bod system radical yn meddwl cau?

I gynnal y math hwn o systemau dysgu o bell byddai'n rhaid cael system dechnoleg ardderchog a rhaid cofio bod dulliau addysgol wedi ei datblygu yn wahanol yn y wlad yma. Adroddiad McKenzie yn dangos pwysigrwydd arweinyddiaeth. Rhaid rhyddhau penaethiaid i'w galluogi i gyflawni rôl arweinyddol a rheolaethol.

Nododd pennaeth bod o'n amhosib rhedeg ysgol a dysgu bob oedran gyda phennaeth a chymhorthydd yn unig, fel mae cyllideb yn ariannu gyda llai na 15 o ddisgyblion.

A fydd dwy gyllid i'r ysgol ardal?

Un corff llywodraethol ac un gyllideb fydd. Y corff llywodraethu fydd yn penderfynu sut i wario'r gyllideb.

Rhaid bod yn ofalus wrth ddewis safle. Tueddiad i blant ddod o'r dref a bydd safle Ieuan Gwynedd yn rhy bell i hyn.

Byddai safle niwtral rhwng y pentrefi yn ddelfrydol.

Poeni am ansicrwydd sydd yn cael ei greu gan ad-drefnu yn yr ardal. Gall hyn gael effaith ar niferoedd ysgolion.

Cynllun Tref Dolgellau

Wrth symud CA2 i'r Gader byddai'n bosib cael gwared ag un o'r safleoedd cynradd. Cost yn £4.5 felly rhaid aros i roi cais i'r Cynulliad. Beth fydd yr arbedion wrth wneud yr opsiwn yma? Bydd yr arbedion werth y gwariant?

Wrth gael gwared ag un safle cynradd, wrth gymharu gydag arbedion Y Bala rhagamcanion cychwynnol yw y byddai oddeutu £20,000-£40,000 o arbediad.

Rhaid meddwl am y gwerth addysgol yn hytrach nag ariannol yn yr achos yma. Mae adnoddau'r cynradd yn ansafonol ar hyn o bryd. Hefyd mae'r Gader yn ffodus o dderbyn llawer o ddisgyblion all-dalgylch sydd yn cadw'r niferoedd fel ag y maent. Os caiff disgyblion all-dalgylch eu colli bydd yr uwchradd mewn sefyllfa fregus. Byddai'r cais yma yn cryfhau'r uwchradd. Bydd rhannu adnoddau ac arbenigedd staff ac esmwytho'r broses drosglwyddo. Ysgolion Uwchradd Meirionnydd yn fregus gyda 300/400 o ddisgyblion yn unig ac yn wynebu diswyddiadau staff.

Pryder bod y cynllun posib o ran safle'r Gader yn dynn iawn ac yn ceisio rhoi llawer o adnoddau ar safle bychan. Pam ddim defnyddio swyddfa Penarlâg gan fod llai a llai o staff Cyngor yno?

Mae mwy o staff yn symud iddo. Safle wedi cael ei ystyried - dim digon o le.

Os bydd Ysgol Gydol Oes yn Nolgellau bydd yn denu plant o ddalgylchoedd gwledig. Oes camau penodol yn cael eu gweithredu i gynnal addysg wledig yn yr ardal?

Model Gydol Oes Y Bala yn ateb hyn – un adeilad gyda'r ysgol, ond yn gymuned dysgu yn cynnwys y dalgylch cyfan.

Oes arian ar gael i'r Gorllewin a'r dref?

Tref yn destun cais Cynulliad os penderfynnir symud CA2 ond Gorllewin yn destun arian y Cyngor.

Faint o arian sydd gan y Cyngor i'w wario?

Mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau fydd yn rheoli buddsoddiad cyfalaf y Cyngor am nifer o flynyddoedd.

		<p><i>Dadleuon bod ardal y Dwyrain yr un mor fregus/argyfyngus â'r Gorllewin.</i></p> <p><i>Hoffa RT nodi bod y ddau gais yn cynnwys ysgolion Eglwysig - Llanfachreth a Cynradd Dolgellau a bydd rhaid i drafodaethau rhwng yr Eglwys a swyddogion barhau.</i></p> <p><i>Ysgol Gynradd Dolgellau dim ond wedi ei ystyried fel rhan o gynllun Gydol Oes, pam ddim ar ben ei hun?</i></p> <p>Heblaw am fodolau cydweithio, mae'n gywir nodi hyn.</p> <p><i>Ynglŷn ag arian y Cynulliad beth fydd yn digwydd gyda dalgylchoedd eraill?</i></p> <p>Eglurwyd nad yw'r sefyllfa yn glir.</p> <p><i>Tywyn wedi bod yn ffodus o gael buddsoddiad. Rhaid nodi nad yw'r problemau ddim am ddiplannu os na fyddai arian..</i></p> <p><i>Yn Sir Fôn mae ysgolion yn cau a dim darpariaeth newydd yn cael ei gynnig. Disgyblion yn cael eu rhannu i'r ysgolion cyfagos.</i></p> <p><i>Oes modd cael ffynhonnell arall ariannol? O gyfeiriad diwydiant?</i></p> <p>Yn anhebygol - prin yw cyfleon o'r fath.</p> <p><i>Mantais Gydol Oes yw trosglwyddo effeithiol? Os symud CA2 i safle'r Gader - beth am drosglwyddo CA1 i CA2 wedyn?</i></p> <p>Ymchwil yn dangos mai o CA2 i uwchradd mae'r cafn dysgu a'r oedran yma sydd angen y sylw pennaf.</p> <p>Yn y cyfamser, Cyngor yn annog cydweithio rhwng ysgolion.</p>		
5.	Crynhoi	<ul style="list-style-type: none"> • Cadw cysyniad Gydol Oes - cydweithio a dim gadael unrhyw ysgol yn y dalgylch ar ei phen ei hun. Cofio'r angen i sicrhau buddion gorau i blant • Byddai symud CA2 i safle Y Gader yn costio £4.5miliwn ac yn gorfod cael ei oedi, a byddai yn ddibynnol ar lwyddiant bid i'r Cynulliad. • Addasu Ieuan Gwynedd £1.1miliwn a Brithdir £1.5miliwn - posib i'r Cyngor ariannu (Ysgol Newydd £4miliwn-Cyngor dim yn gallu ariannu) • Tref Dolgellau - sefyllfa uwchradd yn fregus fel holl ysgolion uwchradd Meirionnydd • Cais i'r dalgylch gyfan gael ystyriaeth ar yr un pryd - annhebyg bod hyn yn bosib ond nodir fod cais wedi ei dderbyn. • Creu ysgol Ddwyreiniol gynaliadwy wrth gael 4 dosbarth dysgu (meithrin a derbyn, blwyddyn 1 a 2, blwyddyn 3 a 4, blwyddyn 5 a 6) • Pryder bod sefyllfa Dinas Mawddwy yn ynysig • Edrych ar safleoedd yr ochr Orllewinol i weld pa safleoedd all gael eu haddasu - wedi ei wneud ar lefel gychwynnol ond amser na chynhwysedd yn caniatáu datblygiad pellach. Cyngor yn bryderus o drafod hanner syniad ar gyfer yr ochr Orllewinol cyn i'r gwaith ymchwil gael ei gwblhau'n briodol 		
6.	Cloi	Diolch i bawb am fynychu ac am roi sylwadau.		

Trefniadaeth Ysgolion

Addysg

Cyfarfod: Panel Adolygu Dalgylch Y Gader 6 (PAD 6) **Dyddiad:** 13 Mehefin 2011

Presennol:

Swyddogion

Cyng Liz Saville Roberts (LSR); Dewi R Jones (DRJ); Tony Bate (TB); Dafydd Gibbard (DG); Guto Rhys Huws (GRhH); Gwenan Jones-Parry (GJ-P)

Cynghorwyr

Cyng. Gethin Glyn Williams; Cyng. John Pughe Roberts

Pennaethiaid

Helen Jones (Ysgol Y Clogau); Peter Maddocks (Ysgol Y Gader); Dwryd Williams (Ysgol Ieuan Gwynedd); Kerry Wyn Parry (Ysgol Y Ganllwyd); Meinir Wyn Jones (Ysgol Brithdir); Nia Edwards (Ysgol Dinas Mawddwy); Olwen Jones (Ysgol Llanelltyd); Catrin Roberts (Ysgol Y Friog); Ann Williams (Ysgol Llanfachreth) Wil Williams (Ysgol Cynradd Dolgellau)

Cadeiryddion Llywodraethwyr

Nia Wyn Jones (Ysgol Ieuan Gwynedd); Gwenan Morgan Owen (Ysgol Y Clogau); Eleri Jones (Ysgol Dinas Mawddwy); John Hughes (Ysgol Llanelltyd); Geraint Evans (Ysgol Brithdir); Derec Jones (Ysgol Llanfachreth); Rhys Llewellyn (Ysgol Ganllwyd)

Rhiant Llywodraethwyr

Sara Price (Ysgol Y Clogau); Gwawr H Davalan (Ysgol Dinas Mawddwy); Bethan Kelly (Ysgol Llanelltyd); Iwan Parry (Ysgol Brithdir); Elin Gapper (Ysgol Cynradd Dolgellau); Aranwen Manzini-Hughes (Ysgol Ieuan Gwynedd); Helen Parry (Ysgol Y Ganllwyd); Simon Evans (Ysgol Llanfachreth);

Eraill

Y Parch Robert Townsend - Cynrychiolydd Esgobaeth Bangor (RT) cyrraedd wrth drafod SWOT y tref

Ymddiheuriadau: Y Parch Robert Townsend - Cynrychiolydd Esgobaeth Bangor (RT) yn ymddiheuro y byddai'n hwyr i'r cyfarfod,

Hefin Owen (HO); Cyng. Linda Morgan; Cyng. Dyfrig Siencyn; Cyng. Louise Hughes; Peter Cook (Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Y Friog); Andy Pym (Rhiant Llywodraethwr Ysgol Y Friog); Jamie Medhurst (Rhiant Llywodraethwr Ysgol Y Gader); Peter Jones (Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Cynradd Dolgellau); Alwyn Owen (Ysgol Ieuan Gwynedd); Rona Lewis (Coleg Meirion Dwyfor); Hedd Pugh (Coleg Meirion Dwyfor)

(Nodi pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod, a nodi unrhyw bwyntiau sydd angen eu cyfathrebu i fforwm arall; gan bwy, erbyn pryd)

Rhif Eitem	Eitem/ Pwnc	Gweithrediad	Gan	Erbyn
1.	Cynnig Y Tref Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc	Campws Gydol Oes yn y dref gyda chydweithio allanol i gryfhau cysylltiadau gyda'r ysgolion gwledig	Tîm Prosiect Ad-drefnu	23-06-11
2.	Ochr Dwyreiniol Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc	Ysgol Ardal ochr Dwyreiniol y dalgylch - edrych ar farn y gynulleidfa o gofnod PAD 6 i benderfynu ar safle rhwng Rhydymain a Brithdir	Tîm Prosiect Ad-drefnu	23-06-11

Cofnod Llawn

Rhif Eitem	Eitem / Pwnc	Gweithrediad
1.	Croeso ac Ymddiheuriadau	DRJ yn croesawu pawb i'r cyfarfod. Ymddiheuriadau fel uchod.
2.	Cofnodion PAD 5	Trafodwyd cofnodion PAD 5 fesul tudalen. Angen ychwanegu Meurig Ashton (Is-gadeirydd Ysgol Ganllwyd) a Sara Price (Rhiant Llywodraethwr Ysgol Y Clogau) i'r presenoldeb. Tudalen 6 – newid geiriad i 'Yn bosib byddai rhieni Llanfachreth yn mynd a'u plant i ysgolion eraill yn hytrach na Rhydymain'. Derbyniwyd cofnodion PAD 5 wedi'r newidiadau gael eu cwblhau.
3.	Cyflwyniad ar Gwaith yn Dilyn PAD 5 – Ardal Gorllewinol	Cyflwyniad 'PowerPoint' gan TB a DG. Crybwyllwyd yr ardal Gorllewinol ac ail adrodd rhesymau pam byddai'n gynamserol gwneud cynnig i'r ardal. <i>Pam bod ochr Dwyrain yn cael ei ystyried yn fregus i gymharu â'r ochr Gorllewin?</i> Ardal Dwyreiniol yn fregus oherwydd nifer plant, yr angen i benodi penaethiaid ac un ysgol orlawn. Rhaid ceisio datrys sefyllfa yma cyn cynnig datrusiadau yn y Gorllewin e.e. Ieuan Gwynedd ar ôl cyllideb eleni (ar ragolygon heddiw) yn mynd i gael cyllid i gyflogi pennaeth a chymhorthodd yn unig. Bydd y cynllun yn sefydlogi ardal Dwyreiniol <i>Gwaith ochr Dwyrain yn effeithio'r Gorllewin. Gwneud newid ar un ochr a dim y llall yn mynd i wanhau sefyllfa'r Dwyrain. Nifer plant yn wahanol ac yn newid ar draws ochr Gorllewinol a Dwyreiniol. Cynllun mynd i wneud y sefyllfa'n waeth yn y Dwyrain.</i> Dim yn bosib rhoi cynnig ar draws y dalgylch i'r cylch democrataidd yma, addewid i ddychwelyd i'r Gorllewin yn syth wedi'r etholiad yn Mai 2012. Gwaith pellach angen ei wneud yn yr ardal Gorllewinol.
4.	Cyflwyniad ar Gwaith yn Dilyn	Cyflwyniad 'PowerPoint' gan TB a DG. Er bod posib sefydlu gydol oes heb fuddsoddiad cyfalaf (h.y. uno'r cyrff llywodraethol), mae dau

<p>PAD 5 – Ardal Tref Dolgellau</p>	<p>ddewis gyda buddsoddiad:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Symud CA2 cynradd Dolgellau i safle'r Gader, angen arian cyfalaf gan y Cynulliad (£4.5miliwn). Cynllun cysyniadol yn cael ei ddangos, rhaid gwneud gwaith ar ymdopi a thraffig - mynedfa a lle parcio priodol. Bydd rhaid cael buddsoddiad pellach i'r Cyfnod Sylfaen a fydd yn parhau ar safle presennol cynradd Dolgellau. 2) Addasu safle cynradd Dolgellau i gael adeiladau i gyd ar un ochr o'r ffordd, defnyddio arian y Cyngor (£1.95miliwn). Uno'r adeiladau a chodi safonau. Darlun cysyniadol yn dangos saith dosbarth (un i bob blwyddyn) a dosbarth meithrin. Dymchwel ffreutur sydd yn bodoli a chreu neuadd newydd gyda ffreutur cyfagos. Dymchwel hen fabanod a chreu safle parcio briodol a chreu cwrt gemau. <p>Gafodd SWOTs (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau) ei rannu yn cymharu'r ddau opsiwn gyda buddsoddiad. Gofynnwyd i'r gynulleidfa rannu yn grwpiau (cynrychiolaeth o wahanol ysgolion) o 5/6 i drafod y pwyntiau ac i ychwanegu pwyntiau ei hunain. Rhoddwyd taflenni gwag i alluogi rhestru pwyntiau perthnasol. Cafwyd toriad o 20munud i alluogi trafodaeth lawn a gofynnwyd i'r grwpiau adrodd yn ol ar lafar i gofnodi'r pwyntiau (casglwyd y taflenni i gael cofnod llawn).</p> <p>Pwyntiau a godwyd (gynulleidfa yn italics):</p> <p><i>Yw hi'n berthnasol i gynrychiolwyr ysgolion y wlad rhoi barn ar y dref?</i></p> <p>Pwysig i bawb rhoi ei barn ar holl drafodaeth y dalgylch. Bydd plant i gyd yn mynd i'r uwchradd, felly bydd darpariaeth addysg yn y dref yn effeithio plant y wlad.</p> <p><i>Nodwyd ei fod yn anodd rhoi sylwadau ar unrhyw gynllun heb wybod y cynllun am yr holl ddalgylch.</i></p> <p><i>Syniad Gydol Oes yn rhoi pryder - llefydd fel Doncaster yn wir Ysgol Gydol Oes wrth roi addysg i holl oedrannau ac yn rhedeg cyrsiau Access a dosbarthiadau nos i oedolion. Dim yn gydol oes os bydd yn addysg i 3-16 yn unig. Rhaid trafod gyda Coleg Meirion Dwyfor. Coleg yn bryderus am Gydol Oes.</i></p> <p>Rhaid gwahaniaethu rhwng adeilad gydol oes a chysyniad gydol oes - nid yw un adeilad yn bosib yn Dolgellau oherwydd diffyg safle. Cysyniad gydol oes yn datblygu'r addysg gorau posib i blant yr ardal ac yn hybu cydweithio. Bydd trafodaethau yn cynnwys mewnbwn y Coleg.</p> <p>Er gwybodaeth bydd cynllun peilot mewn chwe dalgylch yn cychwyn yn Medi 2011 i dargedu cyfnod trosglwyddo CA2-CA3. Newid mawr i ddisgyblion fynd o un athro mewn un dosbarth yn CA2 i nifer o athrawon mewn sawl dosbarth yn CA3. Tystiolaeth bod y newid yma'n amharu ar addysg, bydd y peilot yn ceisio ymateb i hyn. Y Gader yn y peilot, ac yn derbyn arian i ganolbwyntio ar wella'r trosglwyddiad. Angen defnyddio'r dull mwyaf addas a chodi ymwybyddiaeth staff am newid mae'r plant yn gwneud. Rhaid creu dilyniant.</p> <p><i>Ysgol Gynradd Dolgellau, plant yn newid o ddosbarth i ddosbarth at athrawon sydd yn benodol am bwnc. Athrawon uwchradd yn dysgu pynciau nid ydynt yn arbenigwyr ynddo.</i></p> <p><i>Cynllun gydol oes yn y dref yn gwneud dim gwahaniaeth i'r ysgolion a disgyblion gwledig oherwydd bydd rhaid iddynt cael gwisg ysgol newydd wrth drosglwyddo a newid safle. Bydd plant dal yn mynd trwy'r trosglwyddiad presennol.</i></p> <p><i>Angen cysondeb dros y dalgylch cyfan fel bod pob disgybl yn cael mantais. Angen cyllideb i gael staff ag adnoddau gorau posib i alluogi cydweithio effeithiol a llwyddiannus. Rhaid cael eglurder yn y weledigaeth wedyn rhoi amserlen weithredol i gyflawni'n gweledigaeth. Os gaiff buddsoddiad ei rhoi mewn un ardal yn rhy fuan fyddai'n bosib creu ansicrwydd yn yr ardaloedd eraill.</i></p> <p>I bwysleisio, nid yw'n bosib gweithredu cynnig i'r dalgylch cyfan yn yr amserlen dan sylw (cylch democrataidd yma) ac am y rhesymau eraill nodwyd eisoes.</p> <p><i>Coleg gydag un prifathro i 10 safle - dilyn yr esiampyl yma?</i></p> <p>Un pennaeth i ddalgylch ddim yn fwriad ar hyn o bryd ond efallai mewn amser gaiff y strwythur yma ei ddatblygu.</p>
--	---

		<p><i>Cais i wybod os yw'r Cynulliad wedi rhoi arian am gais tebyg i un y dref?</i></p> <p>Nid oes esiampl benodol ond bydd rhaid i'r Cyngor gwneud cais penodol.</p> <p><i>Oes bosib ymestyn i Benarlâg gan fod llai o swyddi yno?</i></p> <p>Mae mwy o swyddi yn mynd i Benarlâg ond efallai byddai'n bosib modelu i ymestyn darn ohono.</p> <p><i>Cais i egluro pa gaeau chwarae byddai dros y lon a beth fydd yr un ochr i'r adeilad.</i></p> <p>Bydd man chwarae caled a meddal er mwyn amser chwarae a chinio ar yr un ochr a'r dosbarthiadau. Bydd cae chwarae arall yn ogystal â chwrt gemau ar safle'r babanod presennol ac ar gael i wersi addysg gorfforol.</p> <p><i>Cyfnod sylfaen angen gofod mawr a dosbarthiadau maint digonol. Ydi dosbarthiadau presennol Cynradd Dolgellau yn ddigonol?</i></p> <p>Yn seiliedig ar ffigyrau heddiw bydd yn ddigonol.</p> <p><i>Pa nifer bydd y datblygiadau yn cael ei gynllunio?</i></p> <p>Niferoedd heddiw gyda 10% ychwanegol.</p> <p><i>Ydy ymestyn ar adeilad y babanod wedi ei ystyried? Adnoddau ac adeilad weddol newydd yno'n bresennol.</i></p> <p>Yr anfantais fawr o'r cynnig yma ydi bod yr ysgol yn parhau ar ddau safle.</p> <p><i>Beth yw'r tebygrwydd bod y Cynulliad am roi arian os gaiff cais ei gyflwyno? Oes modd cael arian o ffynhonnell Cynulliad arall? E.e. am uned gwyddoniaeth arbenigol o dan 'stem agenda'. Byddai uned arbennig gwyddoniaeth ar safle'r Gader yn manteisio pawb, gall disgyblion cynradd ei ddefnyddio hefyd.</i></p> <p>Cyngor wedi derbyn gwybodaeth am y 'stem agenda' yma ac yn fodlon edrych ymhellach i'r syniad.</p> <p>Gweler Atodiad A am sylwadau'r gynulleidfa yn ôl y penawdau SWOT.</p>
5.	<p>Cyflwyniad ar Gwaith yn Dilyn PAD 5 – Ardal Dwyreiniol</p>	<p>Cyflwyniad 'PowerPoint' gan TB a DG.</p> <p>Eglurwyd bod safle niwtral ddim yn bosib oherwydd y gwahaniaeth mewn arian. Byddai rhaid gwneud cais i'r Cynulliad yn 2015/16/17, yn dilyn cadarnhad yr arian (os yn llwyddiant) bydd gwaith am flwyddyn i gomisiynu gwaith. Bydd dim newid tan 2018 ac nid yw'r Cyngor yn hyderus i adael yr ardal Dwyreiniol am gyfnod mor hir oherwydd y rhagolygon.</p> <p>DG yn cymharu adeilad newydd ar safle niwtral i ymestyn Brithdir (Brithdir wedi ei ddewis oherwydd ei fod yn agosach mewn cost i adeilad newydd) i amlygu'r problemau.</p> <p><i>Pryder gan fod ysgol newydd niwtral ddim yn cael ei greu. Byddai safle niwtral yn cael cefnogaeth gan rieni.</i></p> <p>Crybwyllwyd sefyllfa Abergynolwyn pan ddewisodd rieni i symud plant o'r ysgol cyn i newidiadau ad-drefnu dod i effaith oherwydd diffyg niferoedd.</p> <p>Eglurwyd pam bod ymestyn Ysgol Llanfachreth heb gael ei ystyried yn bellach: 25 munud oddi wrth Ysgol Dinas Mawddwy (safle 2), canran mwyaf o ddisgyblion all-dalgylch (59% / 13 disgybl), 73% (16 disgybl) yn byw yn agosach at ysgol arall. Cyflwynwyd map o annedd disgyblion yr ardal Dwyrain i amlygu'r symud rhwng dalgylchoedd ysgolion a'r pellter o dai plant Dinas Mawddwy i Ysgol Llanfachreth.</p> <p>Amser o Dinas Mawddwy i Ieuan Gwynedd yn 19munud.</p> <p><i>Rhaid nodi bod amseroedd gan y Cyngor yn rhai i geir a byddai bws yn cymryd mwy o amser</i></p> <p>Cyflwynwyd rhestr gwaith bydd ei angen yn Brithdir ac Ieuan Gwynedd a chost y ddau opsiwn.</p>

		<p>Rhannwyd asesiadau SWOT i gymharu safle Brithdir ac Ieuan Gwynedd. Cafwyd toriad o 15munud i alluogi trafododd mewn grwpiau ac wedyn adrodd yn nol ar lafar i gofnodi'r pwyntiau (hefyd casglwyd y taflenni i gael cofnod llawn).</p> <p>Pwyntiau a godwyd (gynulleidfa yn italics):</p> <p><i>Iechyd a diogelwch safle Brithdir - cornel beryglus ar y ffordd i fws</i></p> <p><i>Methu rhagdybio sut bydd plant yn symud o amgylch dalgylchoedd i allu cynnwys hyn yn y SWOTs.</i></p> <p><i>Llawer o symud am nifer o resymau, rhai rhesymau wedi ei chrybwyll: pobl sydd yn byw yn y dref eisiau byw yn y wlad ond methu felly yn mynd a'i phlant i dderbyn addysg wledig, cysylltiadau teuluol, hwylustod gyda lleoliad gwaith.</i></p> <p><i>Pam does dim trafodaeth wedi digwydd gyda thirfeddianwyr ers PAD 5? Oes trafodaeth gyda'r Parc Cenedlaethol wedi ei chynnal?</i></p> <p>Cyngor eisiau cael barn PAD ar safle cyn mynd a'r trafodaethau'n rhy bell, osgoi rhoi'r argraff bod safle wedi ei ddewis. Mae cyswllt cychwynnol wedi ei wneud yn dilyn PAD 5 ond dim trafodaethau. Trafodaeth gyda'r Parc Cenedlaethol wedi ei chychwyn a does dim gwrthwynebiad sylweddol i'r ddau safle. Safle niwtral yn anoddach yn ôl y Parc Cenedlaethol.</p> <p><i>Ad-drefnu'n broses hir a phawb yn Brithdir/Ieuan Gwynedd wedi cael sioc gyda'r drafodaeth safle ond dim eisiau colli addysg wledig. Pobl yn credu mewn addysg wledig felly rhaid cytuno ar safle ac wedyn cefnogi'r cynnig cyn oedi rhy hir a gorfod cau rhai ysgolion.</i></p> <p><i>Barn gref gynulleidfa'r PAD yw bod 7 mlynedd yn rhy hir i oedi felly rhaid symud ymlaen heb roi cynnig i'r Cynulliad, defnyddio buddsoddiad gan Cyngor Gwynedd.</i></p> <p><i>Nodwyd bod Y Gader wedi dioddef o arafwch dalgylchoedd eraill. Teimlad bod dalgylchoedd cynt wedi bod yn ffodus cael buddsoddiad ac ysgol newydd.</i></p> <p><i>Dim ond Ysgol Llanfachreth sydd yn bendant cau yn ôl y cynnig yma felly rhaid nodi os gaiff Ysgol Llanfachreth ei gau bydd y gymuned yn marw gan ei fod yn gymuned mor fach.</i></p> <p><i>Dim ysgol yn unig sydd yn creu cymuned.</i></p> <p><i>Anodd i rieni benderfynu ar hanner cynllun - cais eto am gynnig i'r dalgylch cyfan. Ansefydlogi ysgolion wrth beidio rhoi cynnig dalgylch cyflawn, bydd niferoedd ysgolion yn cael ei effeithio.</i></p> <p>Rhaid cofio bod y Cyngor yn fodlon buddsoddi £3.1-3.5miliwn rhwng y ceisiadau gerbron y PAD.</p> <p><i>Oes gwarant bod y rhwyd diogelu ddim yn mynd i gael ei dileu? Mae bygythiad i'r drefn bresennol.</i></p> <p>Yn y cyfamser bydd y drefn bresennol yn cael ei ddarparu, mae cydweithio yn cael ei annog.</p> <p><i>Pam edrych ar y dref cyn y Gorllewin - dylai'r wlad wedi ei drafod cyn y dref. Os bydd trafodaeth Dwyreiniol wedi ei gwblhau cyn Gorllewin, bydd y cyfle i'r 8 ysgol wledig cydweithio wedi ei gollu</i></p> <p>Cyfeirwyd at yr atebion rhoddwyd yn gynharach i'r pwynt yma.</p> <p>Gweler Atodiad B am sylwadau'r gynulleidfa yn ôl y penawdau SWOT.</p>
6.	Crynhoi gan LSR	<p>Nodwyd bod y cynllun yma'n bedwar mlynedd oed bellach a ni fydd newid yn cael ei weithredu nawr tan Medi 2013. Ymwybodol bod pobl ddim yn hoff o newid a bod yn hawdd darganfod rhesymau dros oedi. Yn y dalgylch yma byddai oedi'n beryglus oherwydd symudiad plant ar ochr Dwyreiniol y dalgylch. Rhan o'r weledigaeth yw cadw addysg wledig yn gryf ar ôl ad-drefnu'r dalgylch. Yn ogystal â hyn rhaid edrych ar gynllun i'r dref sydd yn mynd i alluogi'r addysg barhau'n gryf i'r ganrif nesaf. Yn y dyfodol agos bosib bydd rheoliadau gan cael eu cyhoeddi gan y Cynulliad ynglŷn â ffedereiddio ysgolion.</p> <p>Bydd dau fodel yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 23 Mehefin:</p>

		<p>1) Campws Gydol Oes yn y dref gyda chydweithio allanol i gryfhau cysylltiadau gyda'r ysgolion gwledig</p> <p>2) Ysgol Ardal ochr Dwyreiniol y dalgylch - edrych ar farn y gynulleidfa o gofnod PAD 6 ar safle rhwng Rhydymain a Brithdir</p> <p>Bydd cyfleoedd i'r gynulleidfa barhau i fwydo gwybodaeth a barn yn ystod y broses. Cofnod un corff llywodraethol eisoes wedi ei dderbyn a gwerthfawrognw unrhyw gofnod o gorff arall i dderbyn barn yr holl ddalgylch petai dymuniad.</p> <p>Eglurwyd amserlen y broses (copi'r amserlen ar gael):</p> <p>23 Mehefin 2011 Mynd a'r cynigion i Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc</p> <p>05 Gorffennaf 2011 Bwrdd y Cyngor Gwynedd</p> <p>14 Gorffennaf 2011 Cyngor Llawn</p> <p>Medi 2011 Dosbarthu'r dogfennau ymgynghori</p> <p>Medi/Hydref 2011 Cyfarfodydd ymgynghori â staff, llywodraethwyr a rhieni</p> <p>Hydref/Tach 2011 Dyddiad cau i dderbyn sylwadau ar y cynnig</p> <p>15 Rhagfyr 2011 Cyngor yn penderfynu dylid cyhoeddi rhybuddion statudol ai peidio</p> <p>Os bydd y Cyngor yn peidio a chyhoeddi'r rhybuddion statudol bydd y cynnig yn cael ei wrthod. Os yw'n cael ei gyhoeddi bydd cyfnod i wrthwynebu yn unol â'r rheoliadau. Os derbynnir gwrthwynebiadau bydd y cynnig yn cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad. Os na dderbynnir gwrthwynebiadau bydd y cynnig yn dychwelyd i Bwrdd y Cyngor i'w gymeradwyo neu ei wrthod.</p>
7.	Cloi	<p>Diolchodd LSR i bawb am eu cyfraniad a nodwyd ei bod yn ymwybodol bod y drafodaeth yma' un anodd ac wedi ei gynnal yn yr ysbryd cywir er lles addysg plant y dalgylch cyfan.</p>

Atodiad 6 - Amserlen Y Gader

18 Mai 2011	Cyfarfod gydag Aelodau Lleol
25 Mai 2011	Cyfarfod 1 (Pennaethiad, Cadeiryddion a rhiant lywodraethwyr)
13 Mehefin 2011	Cyfarfod 2 (Pennaethiaid, Cadeiryddion a rhiant lywodraethwyr)
23 Mehefin 2011	Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc
05 Gorffennaf 2011	Bwrdd y Cyngor Gwynedd
14 Gorffennaf 2011	Cyngor Llawn
Medi 2011	Dosbarthu'r dogfennau ymgynghori
Medi/Hydref 2011	Cyfarfodydd ymgynghori â staff, llywodraethwyr a rhieni
Hydref/Tach 2011	Dyddiad cau i dderbyn sylwadau ar y cynnig
15 Rhagfyr 2011	Y Cyngor yn penderfynu a ddylid cyhoeddi rhybuddion statudol ai peidio

